Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

## Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru

Dydd Llun 30 Medi 2019 at 2.00 pm
Council Chamber - Bodlondeb

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cyflwyniad ar y Checkpoint Cymru (Anna Baker a'r Arolygydd Iwan Jones)**

5. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

6. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 15)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

7. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

   **b)** Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

   *(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **c)** Rhestr o benderfyniadau a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Tudalennau 16 - 22)

   **d)** Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**8. Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

**a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 23 - 42)

**b)** Diweddariad ar Gyllideb 2019/20 (ar 31 Gorffennaf 2019) (Tudalennau 43 - 47)

**9. Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd Medi 2018 – Medi 2019 (Tudalennau 48 - 50)

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 51 - 53)

**10. Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun, 9 Rhagfyr 2019 @ 2.00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Arnold Woolley Dip.IM, MCMI | Cyngor Sir y Fflint |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Cadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun 17 Mehefin 2019, am 2.00 pm
Council Chamber - Bodlondeb

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Patricia Astbury (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr: Chris Bithell, Dip.IM, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric Jones, Dylan Rees, Greg Robbins Nigel Williams a Arnold Woolley |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |
| Hefyd yn bresennol: | Y Prif Gwnstabl Carl Foulkes (Heddlu Gogledd Cymru), Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) ac Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) |

Atgoffodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

## 68. PENODI CADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid enwebu Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD-**

**Penodi Pat Astbury yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20.**

Diolchodd Mrs Astbury i'r Panel am ei phenodi fel Cadeirydd a chroesawodd Aelodau newydd y Panel, y Cynghorydd Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a'r Cynghorydd Arnold Woolley (Cyngor Sir y Fflint)

## 69. PENODI IS-GADEIRYDD

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid enwebu John Williams (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) yn Is-gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20.

**PENDERFYNWYD-**

**Penodi John Williams yn Is-gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2019/20.**

70. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Dana Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Matthew Forbes (Aelod Annibynnol Cyfetholedig), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), y Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd) a John Williams (Aelod Annibynnol Cyfetholedig).

71. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn ymddiriedolwr Uned Diogelwch Camdriniaeth Ddomestig Glannau Dyfrdwy, sy'n elwa o gyllid gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Datganodd y Cynghorydd Arnold Woolley (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn aelod o gangen y Fflint o Gymdeithas Genedlaethol Swyddogion yr Heddlu sydd wedi Ymddeol, Cymdeithas Ryngwladol yr Heddlu ac yn gydlynydd i Dîm Gwylio Cyflymder Cymuned Bwcle, dan oruchwyliaeth Heddlu Gogledd Cymru, Llanelwy.

72. **MATERION BRYS**

Dim.

73. **DIWEDDARIAD GAN Y PRIF GWNSTABL, CARL FOULKES (HEDDLU GOGLEDD CYMRU)**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyflwyniad gan y Prif Gwnstabl (Mr Carl Foulkes), Heddlu Gogledd Cymru (HGC), a oedd yn trafod y meysydd canlynol:

- Y weledigaeth
  - 'Gwneud Gogledd Cymru y lle mwyaf diogel yn y DU'
  - Gweithredu ar y weledigaeth trwy atal trosedd, gwarchod cymunedau ac erlyn troseddwyr, gan ganolbwyntio ar bobl (lles staff, recriwtio a chynnal gweithlu amrywiol a chynrychioladol); datrys problemau (cyflawni cynlluniau datrys problemau a sefydlu arfer o ddatrys problemau ar bob lefel); a digidol (gweithredu rhaglen ddigidol i gefnogi plismona gweithredol).
- Cyllid
  - £31.104 miliwn o arbedion rhwng 2011 a 2019.
  - Gyda chymorth, parhau i gynnal gwasanaeth rheng flaen fel yn 2010.
  - Roedd Heddlu Gogledd Cymru mewn safle ychydig yn well na Heddluoedd eraill, yn enwedig o ran cyflwyno'r Cynllun Gwelliant Gweithredol.
  - Niferoedd y Swyddogion/Recriwtio – erbyn Mawrth 2020, amcangyfrifwyd mai nifer gwirioneddol y Swyddogion oedd 1459 (targed 1444). Dywedodd y Prif Gwnstabl mai'r cynllun oedd recriwtio mwy i ddechrau, er mwyn gallu recriwtio dan yr hen fframwaith cymwysterau. Er bod y fframwaith cymwysterau

newydd yn weithredol, roedd rhai problemau ag o, felly ni fyddai'r Heddlu'n ei weithredu tan fis Mehefin 2020.
  - Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu – oherwydd llwyddiant nifer o Swyddogion Cymorth Cymunedol i fod yn Heddweision, roedd y niferoedd wedi gostwng, ond y bwriad oedd recriwtio dwy don o Swyddogion Cymorth Cymunedol yn y flwyddyn ariannol hon.
- Ychwanegedd (Staffio a Buddsoddi)
  - Roedd y Panel yn cefnogi cynnydd i braesept yr Heddlu, er mwyn gweithredu'r Rhaglen Gwelliant Gweithredol, a fyddai'n golygu buddsoddiad mewn 30 o Heddweision eraill a 10 o Staff yr Heddlu; roedd 10 o Staff yr Heddlu ar hyn o bryd, ac roedd disgwyl i'r 30 o Heddweision fod wedi'u penodi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- Cydweithio
  - Gwasanaethau Brys
  - Canolbwynt Cudd-wybodaeth ar y Cyd;
  - Ar sail Cymru gyfan (Cyswllt Cyhoeddus Digidol/E-recriwtio a Recriwtio Sengl Gartref Ar-lein); a
  - Rhannu cudd-wybodaeth â Gogledd-orllewin Lloegr
- Strategaeth Ystadau
  - Agor Gorsaf Heddlu Llai yn swyddogol
  - Gwaith adnewyddu Gorsaf Heddlu Pwllheli i gychwyn fis Hydref 2019
  - Canolfan Comisiynu Cerbydau i fod yn wag erbyn 2022
  - Dyfodol Caergybi – cyfle i weithio gyda Chyngor Sir Ynys Môn
  - Adolygu cyfleoedd ar gyfer safleoedd Haen 3.
- Dalfa Dolgellau
  - Caeodd y Ddalfa ym mis Ebrill 2017 gan fod diogelwch carcharorion a swyddogion yn bwysicach na dim. Byddai gwneud yr uned yn addas yn costio £750,000, ond roedd niferoedd a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa wedi gostwng yn gyson, gyda llai nag un y dydd. Fodd bynnag, cydnabyddai'r Prif Gwnstabl yr heriau ac roedd yn gweithio gyda staff a Heddlu Dyfed Powys i ddarparu datrysiad mwy ymarferol.
- Rhaglen Gwelliant Gweithredol
  - Patrwm sifftiau 12 awr wedi'i weithredu, gydag ymateb cadarnhaol.
  - Adolygiad o ddalfeydd i ddigwydd dros y misoedd nesaf.
  - Adolygu plismona cymunedol i fodloni disgwyliadau cymunedol.
- Ymchwilwyr Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu
  - 10 Ymchwilydd Cefnogaeth Gymunedol i gael ei recriwtio i gasglu tystiolaeth ar gyfer Ditectifs; pwerau wedi'u rhoi gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a phroffesiynoli'r gweithlu gyda chwrs hyfforddi 8 wythnos.
- Ymosodiadau ar Swyddogion yr Heddlu
  - Darlun cenedlaethol yn newid – cynnydd mewn troseddau difrifol a threisgar.
  - Cynnydd yn genedlaethol yn nifer yr ymosodiadau ar Swyddogion yr Heddlu.

    - ‘Cynllun Wyth Pwynt’ wedi'i weithredu gan Ffederasiwn yr Heddlu i gefnogi cydweithwyr.
- Troseddau â chyllyll
    - Roedd troseddau â chyllyll yn parhau'n bryder cenedlaethol cynyddol ac roedd yn amlwg yn y cyfryngau cenedlaethol a lleol.
    - Er nad oedd yr un lefelau yng Ngogledd Cymru â lleoedd eraill yn y DU, bu 121 o achosion yn ymwneud â chyllyll rhwng 01/12/18 a 28/02/19; roedd 39% yn rhai domestig.
    - Cysylltiadau â Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol
    - Cydlynydd Trais Difrifol wedi’i benodi gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
    - Menter “Mae Cyllyll yn Lladd” yn lansio ym mis Mehefin 2019.
- Llinellau Sirol
    - 26 o gangiau Llinellau Sirol yn gweithredu yn ardal Gogledd Cymru, gyda chysylltiadau â Manceinion/Glannau Merswy.
    - Roedd ymyrraeth gynnar ac atal yn allweddol.
    - Dull amlasiantaeth – Gweithio ar y cyd.
    - Ymgyrch Bypass – Llinell Sirol wedi’i chanfod a’i thargedu, a 4 troseddwr wedi’u cael yn euog.
- Cynnydd yr haf yn ardal y Gorllewin
    - Er bod cynnydd yn nifer y bobl yn ardal y Gorllewin dros fisoedd yr haf, nid oedd hyn o reidrwydd yn arwain at gynnydd sylweddol o ran troseddau; ond roedd yn debygol bod cynnydd o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol.
    - Roedd isafswm y swyddogion a oedd yn yr ardal yn cael ei gynyddu yn ystod y misoedd hyn.
- Plismona ffyrdd
    - Bu gostyngiad o 77.78% yn nifer y damweiniau angheuol rhwng Ionawr a Mai 2019 (18 i 4).
    - Bu gostyngiad o 6.48% yn nifer y damweiniau difrifol (108 i 101).
    - Nodi llwybrau blaenoriaeth a gweithio gyda phartneriaid i geisio datrysiadau eraill i leihau nifer y gwrthdrawiadau sy’n achosi anafiadau.
    - Roedd mwy wedi'u harestio am yrru ar gyffuriau gan ddefnyddio pecynnau profi cyffuriau yr oedd angen buddsoddi ynddynt.

Diolchodd y Panel i’r Prif Gwnstabl am gyflwyniad llawn gwybodaeth ac aeth ymlaen i drafod y materion canlynol:

- Defnyddio pecynnau cyffuriau a gweithio gyda Gwarchod y Cyhoedd.
    - Er bod angen buddsoddi i ddarparu’r pecynnau, byddai’r rhan fwyaf o yrwyr a oedd yn cael eu stopio’n cael prawf cyffuriau.
    - Cadarnhaodd y Prif Gwnstabl bod yr Heddlu a’r Awdurdodau Lleol yn cydweithio, a oedd yn benodol bwysig wrth drwyddedu gyrwyr tacsis.
- Defnyddio camerâu corff
    - Dywedodd y Prif Gwnstabl mai’r bwriad oedd cyflwyno camerâu corff i’r holl staff rheng flaen. Fodd bynnag, roedd angen buddsoddi mwy, gan fod peth o'r cyfarpar yn dod at ddiwedd ei oes, felly byddai angen ei newid yn fuan.

- Y Strategaeth Ystadau ar gyfer Prestatyn – mynegwyd pryderon ynghylch diffyg presenoldeb gweledol Swyddogion yr Heddlu ym Mhrestatyn a chyfeiriwyd at y posibilrwydd o golli adnoddau i ddelio â throseddau mwy difrifol.
  - Dywedwyd wrth y Panel bod y Prif Gwnstabl yn edrych ar y Strategaeth Ystadau a'r posibilrwydd o rannu/defnyddio adeiladau (gorsafoedd tân/llyfrgelloedd) i gael presenoldeb mewn trefi a phentrefi.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl eto y byddai'r Heddlu'n canolbwyntio ar yr holl droseddau a materion a oedd yn effeithio ar gymunedau, ond y gallai materion gael eu trin yn wahanol.
- Mynegwyd pryderon ynghylch a oedd gan yr Heddlu ddigon o adnoddau i ddelio â gyrwyr heb dalu treth, prawf MOT ac yswiriant.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl bod blaenoriaethu'n allweddol ac y byddai digwyddiadau o'r fath yn cael eu trin fesul achos. Fodd bynnag, roedd trafodaethau pellach ar fynd ynglŷn â'r mater.
- Effaith Brexit ar blismona
  - Er bod llwyth o waith wedi'i wneud gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phroblemau byrdymor, ni ellid dweud beth fyddai'r effaith yn y tymor hwy ar hyn o bryd.
- Nifer yr ymosodiadau ar Swyddogion yr Heddlu.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl bod gwaith ar fynd i ddeall y problemau ac a ellid gwella hyfforddiant, diogelwch a pholisïau gweithredu.
  - Er bod cynnydd wedi bod yn ystadegau Gogledd Cymru, teimlai'r Prif Gwnstabl y gallai hyn fod o ganlyniad i drefniadau cofnodi gwell ar gyfer achosion o'r fath.
- Recriwtio llu mwy amrywiol sy'n cynrychioli'r boblogaeth yn well
  - Dywedodd y Panel bod dull Cymru Gyfan yn cael ei ddefnyddio i recriwtio llu a oedd yn gynrychioladol i'r cymunedau roeddent yn eu gwasanaethu.
- Llinellau Sirol a rhannu gwybodaeth gyda Gogledd-orllewin Lloegr.

Croesawai'r Prif Gwnstabl y cyfle i ddod yn ôl adref i weithio yng Ngogledd Cymru ac roedd yn awyddus i fynd i'r afael â'r gwaith.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r cyflwyniad a bod y Swyddog Craffu a Gwasanaethau Pwyllgorau'n anfon cyflwyniad y Prif Gwnstabl at aelodau'r Panel Heddlu a Throsedd.**

74. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Bu i'r Cadeirydd longyfarch Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am ennill Marc Ansawdd am Dryloywder yn ddiweddar am y drydedd flwyddyn yn olynol.

75. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019.**

76. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Darparwyd adborth ar y camau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 28 Ionawr 2019 fel a ganlyn:

Cofnod 60 - Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:
Mewn perthynas â chynigion i roi pwerau dirprwyedig i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, byddai Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn anfon ymateb at Banel yr Heddlu a Throsedd ynghylch pryd y byddai hyn yn digwydd.

Cofnod 61 - Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd: Er bod gan Heddlu Gogledd Cymru swyddogion wedi'u hyfforddi'n benodol mewn twyll ac ymchwilio ariannol, holodd y Cynghorydd Chris Bithell a oedd yr Heddlu'n gwneud digon i fynd i'r afael â hyn.

Dywedodd y Comisiynydd bod yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth yn ddiweddar wedi cyhoeddi adroddiad mewn perthynas â hyn a bod angen deall sut i wella ac ymateb yn briodol yng Ngogledd Cymru yn unol ag argymhellion yr adroddiad. Roedd y Comisiynydd hefyd yn awyddus i gynyddu adnoddau yn y Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr i ddelio â dioddefwyr twyll.

Cofnod 64 - Praesept a Threth y Cyngor 2019/20: Dywedodd y Comisiynydd bod y materion a oedd yn ymwneud â'r Ardoll Brentisiaethau yn cael eu trafod gyda'r Trysorlys; dywedodd y Prif Gwnstabl wrth y Panel hefyd bod sgyrsiau'n ffafriol, ond nad oedd ymateb ffurfiol wedi cyrraedd.

77. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Yn unol â'r Protocol ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, roedd Aelodau'r Panel wedi cyflwyno'r cwestiynau canlynol, ac fe ymatebodd y Comisiynydd iddynt fel a ganlyn:

**Cwestiwn 1 – John Williams**

*Y gofynion mynediad newydd ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Addysgol Plismona o 1 Ionawr 2020 ar gyfer recriwtiaid Cwnstabliaid yr Heddlu fydd un o'r canlynol:*

- *Prentisiaeth Gradd Cwnstabl yr Heddlu.*
- *Rhaglen fynediad graddedigion.*
- *Gradd mewn plismona cyn ymuno.*

*(Gwefan y Coleg Plismona)*

*Agorodd y Rhaglen Mynediad Uniongyrchol i Arolygwyr ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ar 7 Ionawr 2019 ac yn y meini prawf, yr isafswm cymwysterau yw un cymhwyster Lefel 3.*

*Rwy'n credu bod cymhwyster lefel 3 gyfwerth ag un "Lefel A".*

*Mae Uwch-arolygydd Mynediad Uniongyrchol angen cymhwyster lefel 6/7, sef gradd neu gymhwyster uwch.*
*O ystyried y bydd angen i Gwnstabliaid yr Heddlu fod wedi'u hyfforddi at lefel gradd, mae'n debyg bod y lefel mynediad ar gyfer Arolygwyr Mynediad Uniongyrchol yn rhy isel, yn enwedig gan ei bod yn debygol y byddant yn dod yn Uwch-arolygwyr ymhen amser.*

*A yw'r Comisiynydd yn fodlon bod y gofynion mynediad ar gyfer Arolygydd Mynediad Uniongyrchol yn Heddlu Gogledd Cymru wedi'u gosod ar y lefel angenrheidiol?*

**Ateb 1**

*Bydd Fframwaith Cymwysterau Addysgol Plismona ar gyfer Cwnstabliaid yr Heddlu'n cael ei weithredu gan Heddlu Gogledd Cymru (HGC) yn 2020 gyda llwybrau Prentisiaeth Cwnstabl yr Heddlu a Mynediad i Ddeiliaid Gradd.*
*Mae'r Fframwaith ar gyfer swyddi Sarsiant i Brif Swyddog wedi'i adolygu a'i ddiwygio gan y Coleg Plismona yn 2018 ac mae ymgynghoriad yn parhau arno gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a budd-ddeiliaid eraill ar hyn o bryd. Mae'r amserlen i weithredu Fframwaith Cymwysterau Addysgol Plismona lefel uwch wedi'i ohirio nes bydd y Cyngor Cenedlaethol wedi ystyried y cynigion diwygiedig.*

*I roi cyd-destun i'r cynllun Mynediad Uniongyrchol, adolygwyd y gofynion cymhwystra ar gyfer y cynllun Mynediad Uniongyrchol i Arolygwyr yn 2018 gan y Coleg Plismona yn sgil ymgyrchoedd blaenorol a oedd yn denu nifer isel o ymgeiswyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, yn enwedig pobl Ddu, Asiaidd ac o Leiafrifoedd Ethnig.*

*Cyhoeddwyd y canllawiau canlynol gan y Coleg Plismona ar gyfer ymgyrch Mynediad Uniongyrchol Arolygwyr 2019;*

*"Roedd y broses y llynedd yn ei gwneud yn ofynnol yn genedlaethol i ymgeiswyr Mynediad Uniongyrchol fod â gradd neu gymhwyster lefel 7 cyn ymgeisio. Mae hyn wedi newid ar ôl adolygu'r broses. Gall Heddluoedd osod eu safonau eu hunain (a allai gynnwys gradd, os dymunir) ond mae'n rhaid bodloni rheoliadau'r Heddlu ynghylch penodiadau cyffredinol fel Swyddog yr Heddlu".*

*I sicrhau bod gofynion yn cyd-fynd â'r canllawiau a rhai Heddluoedd eraill, defnyddiodd HGC y gofynion cymhwystra cyffredinol ar gyfer swyddog yr Heddlu, sef isafswm o gymhwyster lefel 3 a'r holl ofynion rheoliadol eraill i weithio i Wasanaeth yr Heddlu.*

*Bydd yr holl Arolygwyr Mynediad Uniongyrchol sydd wedi llwyddo i raddio o raglen Mynediad Uniongyrchol y Coleg Plismona wedi ennill cymhwyster lefel 7 mewn Arweinyddiaeth Blismona, a bydd hynny'n cyd-fynd â'r gofynion arfaethedig ar gyfer y Fframwaith Cymwysterau Addysgol Plismona ar gyfer Arolygydd.*

*Mae proses ddyrchafiadau fewnol gyfredol HGC yn cyd-fynd â Fframwaith Dyrchafiadau Cenedlaethol yr Heddlu ac nid oes angen unrhyw gymhwyster ar hyn o bryd i gychwyn ar y broses ddyrchafiadau. Yn ystod y broses ddyrchafiadau, mae Sarsiantiaid HGC yn cyflawni Tystysgrif lefel 4 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth ac mae Arolygwyr yn cyflawni Tystysgrif lefel 5 mewn Rheoli ac Arweinyddiaeth – wedi'u rhoi gan y Sefydliad Rheolaeth Siartredig.*

*Rydym ar hyn o bryd yn edrych ar Raglenni Uwch-arweinyddiaeth gyda Phrifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn, Prifysgol Lerpwl John Moores a Phrifysgol Bangor, i ganfod rhaglenni datblygu arweinyddiaeth sy'n cyd-fynd â gofynion Fframwaith Cymwysterau Addysgol Plismona yn y dyfodol.*

Rhoddodd y Prif Gwnstabl hefyd drosolwg i'r Panel o'r tri llwybr mynediad ar gyfer y fframwaith cymwysterau newydd y byddai angen i Heddlu Gogledd Cymru ei weithredu o fis Mehefin 2020 ymlaen.

**Cwestiwn 2 – y Cynghorwyr Chris Bithell/Dylan Rees**

*'Ysgrifennodd Andrew Gilligan erthygl ym mhapur y Sunday Times ar 5 Mai, 2019, dan y pennawd "Police let suspects go free to avoid 60 mile drive to cells." Honnir y gall hyn helpu i egluro pam bod nifer yr arestiadau wedi haneru ar adeg pan mae nifer y troseddau wedi cynyddu.*
*Er y mynegwyd pryderon am effaith y nifer llai o leoedd a chelloedd mewn dalfeydd yn genedlaethol, tynnwyd sylw at heddluoedd penodol yn yr erthygl, sef Northumberland a Gogledd Cymru.*

*Yn gryno, roedd yr erthygl yn dweud bod swyddogion yr Heddlu'n gadael i droseddwyr fynd oherwydd y pellter i fynd â nhw i'r dalfeydd a oedd ar ôl; yn achos Gogledd Cymru, roedd y rhain wedi gostwng i dair – Caernarfon, Llanelwy a Wrecsam (yn Llai bellach).*

*Dyfynnwyd Che Donald, Is-gadeirydd Ffederasiwn yr Heddlu yn dweud "This has become a particular problem in some areas, especially rural areas, where officers may be forced to drive for long distances to take offenders into custody. This can take the Officer off the streets for a considerable period of time and in the case of drink drivers, it may mean offenders ultimately escaping conviction entirely".*

*Mae'r erthygl yn dyfynnu sefyllfa ardaloedd megis Tywyn sydd 64 milltir o Gaernarfon ac oddeutu'r un pellter o Wrecsam. Mae hefyd yn dyfynnu, Mark Jones, Ysgrifennydd Cyffredinol Cangen Gogledd Cymru o Ffederasiwn yr Heddlu, sy'n dweud "It is a huge consideration for an officer when they are weighing up in their mind whether to arrest someone or not. It could be that someone warrants arrest but due to the distance they have to go (to a custody suite) officers are having to reconsider."*

*Mae'r erthygl hon yn peri pryder i mi ac rwyf yn cael fy atgoffa o'r pryderon difrifol a fynegais pan oeddwn yn aelod o Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru pan gafwyd trafodaeth a gwnaethpwyd y penderfyniad i gau'r ddalfa yn yr Wyddgrug. Roeddwn yn poeni y byddai swyddogion yn cael eu tynnu o'u hardaloedd am o leiaf awr a hanner i ddwy awr er mwyn danfon troseddwyr i Wrecsam, eu cyflwyno nhw a'r manylion cysylltiedig yn y ddalfa. O ystyried y nifer fechan o swyddogion ar ddyletswydd, yn enwedig yn y nos, a'r ardaloedd mawr y mae'n rhaid iddynt ofalu amdanynt, byddai hyn yn golygu na fyddai bron yr un swyddog arall yn bresennol tra bod eraill yn danfon y troseddwr i'r ddalfa. Mae'n rhaid bod hynny'n ystyriaeth fawr i'r swyddogion wrth wneud penderfyniad. Roeddwn yn pryderu'r adeg honno, pan oedd gennym fwy o swyddogion yn lleol a chenedlaethol i fynd i'r afael â throseddu, felly a yw hyn yn cael ei ystyried yn fwy o bryder mawr bellach? Eto, fel aelod yr Wyddgrug, roeddwn yn pryderu am y daith o oddeutu 22 milltir i Wrecsam ac yn ôl. Gallaf gydymdeimlo â phryderon y rhai sy'n byw yn Nhywyn a fyddai'n gorfod teithio 128 o filltiroedd ar hyd ffyrdd heriol ym mhob tywydd yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.*

*Gofynnaf i chi ymchwilio i'r pryder hwn ac adrodd eich canfyddiadau yn ôl i'r Panel.'*

**Ateb 2**

Gweler ymateb y Comisiynydd yn Atodiad y cofnodion.

Croesawai'r Cynghorydd Chris Bithell a Dylan Rees yr ymateb manwl gan y Prif Gwnstabl yn ei gyflwyniadau gan gydnabod y rhesymau er diogelwch a rhesymau ariannol.

Fodd bynnag, cyfeiriodd y Cynghorydd Bithell at y pellterau a oedd ynghlwm â mynd â throseddwr i'r ddalfa a'r effaith ar Swyddogion yr Heddlu.

Dywedodd y Comisiynydd, o ganlyniad i'r cau, fod cynnydd wedi bod yn nifer y staff ac mai ond tair tref a oedd wedi'i heffeithio gan y cau. Dywedwyd wrth y Panel hefyd bod trafodaethau ar fynd gyda Heddlu Dyfed Powys ynghylch defnyddio Dalfa Aberystwyth.

78. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd o 10 Tachwedd 2018 tan 17 Mai 2019 i'r Aelodau.

Mewn perthynas â'r penderfyniad i ddyrannu cyllid i Bentre Peryglon, gofynnodd y Cadeirydd faint o blant a oedd yn mynd i'r cyfleuster ac a ellid ei symud o amgylch Gogledd Cymru i'w wneud yn fwy hygyrch.

Dywedwyd wrth y Panel bod tipyn o ysgolion yn mynd i'r cyfleuster a gan fod y Prif Gwnstabl ar Fwrdd Pentre Peryglon, byddai'n trafod y mater ymhellach.

Awgrymwyd y gallai'r Panel ysgrifennu at y Bwrdd yn gofyn a ellid creu math o sioe deithiol i hyrwyddo peryglon troseddau cyllyll.

**PENDERFYNWYD-**
**Nodi'r wybodaeth.**

79. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn:

<u>Cefnogwr yn erbyn Cam-Drin Domestig</u>

Cydnabu'r Cynghorydd Chris Bithell y gostyngiad o 30.8% yn y nifer a oedd yn aildroseddu o fewn 12 mis (fel mae diweddariad rheolaidd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ei nodi), fodd bynnag, cwestiynodd y Cynghorydd Bithell pam roedd nifer y dioddefwyr a oedd yn dioddef trosedd arall o fewn 12 mis wedi cynyddu 7.7%.

Awgrymodd y Prif Gwnstabl y gallai fod rhyw berthynas rhwng nifer yr Hysbysiadau Amddiffyn rhag Trais Domestig, a oedd wedi cynyddu 16.6% a'r gostyngiad yn y nifer o droseddwyr a oedd yn troseddu eto. Dywedwyd wrth y Panel bod ymchwil yn cael ei wneud mewn perthynas â hyn ac y byddai'r Comisiynydd yn adrodd yn ôl arno fel y bo'n berthnasol.

Cydnabu'r Cynghorydd Bithell bod defnyddio camerâu corff wedi casglu llawer o dystiolaeth gynnar, a allai gael ei defnyddio ar gyfer erlyn, pan mae'r dioddefwr wedi rhoi'r gorau i weithio gyda'r achos.

Mewn cyfarfod diweddar, bu i'r Cynghorydd Bithell hefyd gwestiynu a oedd ymchwiliadau amserol i Achosion Cam-drin Domestig a mynegodd rai pryderon anecdotaidd gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a oedd wedi'u cynnwys yn Niweddariad Rheolaidd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Cyfeiriwyd at arolygon Hyder a Bodlonrwydd Dioddefwyr Cam-drin Domestig a lefelau bodlonrwydd o 69.6% ar gyfer arolygon dilynol a gofynnodd Aelod o'r Panel a oedd hwn yn fater adnoddau/hyfforddiant; byddai'r Comisiynydd yn mynd ar ôl y mater yma ymhellach ac yn adrodd ar ei ganfyddiadau.

<u>Cefnogwr yn erbyn Caethwasiaeth Fodern</u>

Cynghorodd y Cadeirydd y Panel ei bod yn ddiweddar wedi cyfarfod â'r Swyddog Craffu a Pholisi (Liz Ward) ac wedi trafod y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a'r amserlenni ar gyfer y rhai hynny a oedd wedi mynd drwy broses y Mecanwaith.

Cyfeiriodd y Comisiynydd at y broses yn ei ddiweddariad rheolaidd a dywedodd y dylai'r gefnogaeth/gwarchodaeth a oedd yn cael ei chynnig gael ei hymestyn i o leiaf 60 diwrnod neu fwy. Dywedodd y Comisiynydd hefyd ei fod am wneud gwaith a fyddai'n caniatáu iddo adolygu'r manylion ynghylch achosion penodol, er mwyn deall a oedd prosesau i ymdrin â dioddefwyr caethwasiaeth fodern yn effeithiol yn y tymor byr a'r tymor hir.

Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd dull amlasiantaeth i drechu caethwasiaeth fodern a chynghorodd y Comisiynydd yr Aelodau am gynhadledd y diwydiant croeso ac awgrymodd y gallai awdurdodau lleol efallai gyfrannu £300 yr un i hwyluso'r gynhadledd.

Mewn perthynas â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant, tynnodd y Cadeirydd sylw hefyd at y gwasanaeth cyfweliadau dychwelyd adref (a oedd yn arfer cael ei ddarparu gan Barnardo's) gan ddweud bod Cynghorau Sir y Fflint a Wrecsam yn darparu gwasanaeth cyfweliadau dychwelyd adref ac nad oedd Conwy, Sir Ddinbych a Gwynedd yn gwneud hynny. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau fynd yn ôl at eu Cynghorau a gofyn i Swyddogion pam nad oeddent yn darparu'r gwasanaeth hwn.

Mewn ymateb, rhoddodd y Comisiynydd rywfaint o gyd-destun ynghylch y mater gan ddweud bod Prif Weithredwr blaenorol Cyngor Sir Ddinbych wedi ceisio cael pob un o'r 6 awdurdod lleol i ariannu'r gwasanaeth, ond nad oedd yn llwyddiannus ac roedd pob awdurdod lleol yn 'gwneud eu peth eu hunain'.

Fodd bynnag, dywedodd y Comisiynydd wrth yr Aelodau ei fod yn cyfarfod â Jane Hutt AC yn fuan i feddwl am ateb genedlaethol/lleol i hyn.

## 80. DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd diweddariad rheolaidd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o 1 Tachwedd 2018 tan 1 Mai 2019 i'r Aelodau.

Roedd yr adroddiad yn dangos manylion perfformiad mewn perthynas â Chynllun yr Heddlu a Throsedd 2017-2021 ac yn darparu gwybodaeth yr oedd yn rhesymol ofynnol i'r Comisiynydd ei darparu i Banel yr Heddlu a Throsedd ynglŷn â chyflawni ei swyddogaethau.

Er bod y rhan fwyaf o faterion wedi'u trafod yn y cofnodion uchod, tynnodd y Comisiynydd sylw'r Panel at y canlynol:

- Blaenoriaeth 1 – Camdriniaeth Ddomestig
  - Ym mis Mawrth 2018, roedd 81.3% o achosion llys Cam-drin Domestig yn llwyddiannus o'u cymharu â 77.3% y flwyddyn flaenorol hyd yma.
- Blaenoriaeth 2 – Caethwasiaeth Fodern
  - Roedd gan y Comisiynydd bryderon ynghylch y newidiadau arfaethedig i'r cynllun peilot Eiriolwyr Annibynnol yn erbyn Masnachu mewn Plant a gyflwynwyd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru; roedd y Comisiynydd yn disgwyl am y

gwerthusiad o’r prosiect gyda’r model cymorth a oedd wedi’i newid a byddai’n rhoi sylwadau am hyn yn y dyfodol.

- Blaenoriaeth 3 – Cam-drin Rhywiol
  - Roedd y set ddata ddiweddaraf ar gyfer y 12 mis tan fis Ionawr 2019 yn dangos bod Gogledd Cymru yn y 10fed safle uchaf o’r 43 llu mewn perthynas â throseddau treisio sy’n cael eu riportio. Roedd y Comisiynydd yn teimlo ei bod yn debygol bod hyn oherwydd prosesau riportio gwell, yn hytrach na chynnydd yn y troseddau treisio.
  - Roedd y set ddata ddiweddaraf ar gyfer y 12 mis tan fis Medi 2018 yn dangos bod Heddlu Gogledd Cymru yn y 3ydd safle uchaf o’r 43 llu mewn perthynas â chanlyniadau positif i achosion troseddau treisio .
  - Ers 1 Ebrill 2019, bu 34 o atgyfeiriadau at Dîm Ymchwiliadau Pedoffilyddion ac Ar-lein Heddlu Gogledd Cymru (POLIT); roedd un dioddefwr wedi’i nodi o’r atgyfeiriadau, ac roedd 75 o unigolion wedi’u diogelu.
- Materion Craidd Plismona – Troseddau Cyllyll
  - Cofnodwyd chwe dynladdiad rhwng Rhagfyr 2017 a Rhagfyr 2018, ac roedd dau o’r troseddau hyn yn cynnwys cyllell.

Diolchodd y Panel i’r Comisiynydd am y wybodaeth ddiweddaraf gan godi’r materion canlynol:

- Cefnogaeth i staff sy’n ymdrin â chamfanteisio rhywiol ar blant
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl wrth y Panel bod yr holl staff yn cael atgyfeiriad gorfodol i sesiynau cwnsela ac roedd gwasanaeth cymorth sylweddol i staff.
- Defnyddio gwirfoddolwyr i weithio gyda throseddwyr
- Mynd i’r afael â diwylliant gangiau
- Stopio a chwilio pobl i'w hannog i beidio â chario cyllyll
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl nad oedd y dull yma'n cael ei ddefnyddio'n ddigon aml a hynny mae'n debyg oherwydd hyder a bod angen newid arferion.
  - Gallai Swyddog wedi’i warantu’n llawn stopio a chwilio pobl, ond byddai’r Comisiynydd yn egluro a fyddai’r pwerau hyn yn cael eu dirprwyo i Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

**PENDERFYNWYD-**

**Nodi gwybodaeth ddiweddaraf Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.**

81. **ADRODDIAD CYLLID – SEFYLLFA DERFYNOL 2018/19**

Cyflwynwyd Sefyllfa Ariannol Derfynol 2018/19 i’r Panel.

Cymeradwywyd y gyllideb net o £146.467 miliwn gan y Panel ar 22 Ionawr 2018, gyda'r sefyllfa gyffredinol ddiwedd Mawrth 2019 yn arwain at danwariant o £0.689 miliwn; nodwyd manylion yr amrywiadau yn yr adroddiad.



**PENDERFYNWYD-**

**Nodi'r adroddiad.**

82. **TREULIAU PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU 2018/19**

Cyflwynodd Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adroddiad ar dreuliau ar gyfer 2018/19, a oedd yn cynnwys costau gweinyddu, costau cyfieithu, a hawliadau unigol Aelodau o'r Panel ar gyfer costau a threuliau, fel sy'n ofynnol o dan Gytundeb y Swyddfa Gartref.

Mae'r Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Cynnal o £70,975 i gynnal Panel yr Heddlu a Throsedd. Gwariodd y Panel oddeutu £82,000 yn 2017/18 ac roedd unrhyw orwariant yn cael ei dalu gan yr Awdurdod Cynnal; amser swyddogion yn yr achos hwn. Mae'r Panel a Swyddogion wedi bod yn awyddus i leihau'r gorwariant hwn ac wedi llwyddo i leihau gwariant ymhellach yn 2018/19 i oddeutu £73,000.

Wrth ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd y Panel wedi derbyn ei ddyraniad grant ar gyfer 2019/20, ond pe bai'r dyraniad yr un fath ag yn 2018/19 a phe bai'r Panel yn cytuno gohirio cyfarfod mis Mawrth, roedd y Swyddogion yn obeithiol na fyddai rhaid i'r Awdurdod Cynnal dalu am unrhyw orwariant fel yn y blynyddoedd blaenorol.

Cytunwyd, os nad oedd unrhyw fusnes statudol, y byddai cyfarfod mis Mawrth yn cael ei ganslo.

**PENDERFYNWYD-**

(a) **Bod Panel yr Heddlu a Throsedd yn nodi ac yn cyhoeddi costau gweinyddol, costau cyfieithu a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel am dreuliau a lwfansau yn ôl y gofyn.**

(b) **Canslo cyfarfod mis Mawrth os nad oedd unrhyw fusnes statudol.**

83. **ADOLYGIAD O AELODAETH PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynodd y Swyddog Arweiniol a'r Cynghorydd Cyfreithiol adroddiad yn dilyn adolygiad o aelodaeth Panel yr Heddlu a Throsedd.

Fel yr Awdurdod Cynnal, roedd yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy adolygu aelodaeth Panel yr Heddlu a Throsedd yn flynyddol a gweithredu unrhyw newidiadau angenrheidiol.

O ganlyniad i newidiadau yng nghydbwysedd gwleidyddol Gogledd Cymru, roedd cyfansoddiad gwleidyddol y Panel wedi newid. Felly, ar ôl gweithredu gweithdrefnau cydbwysedd gwleidyddol yr Awdurdod Cynnal, mae'r newidiadau canlynol wedi'u gwneud:

- Hawl CBSC
  - Cyn yr adolygiad: 2 Annibynnol
  - Ar ôl yr adolygiad: 1 Annibynnol ac 1 Ceidwadwr

- Hawl Cyngor Sir y Fflint
  - Cyn yr adolygiad: 1 Llafur ac 1 Democrat Rhyddfrydol
  - Ar ôl yr adolygiad: 1 Llafur ac 1 Annibynnol.

Felly, croesawodd y Panel y Cynghorydd Greg Robbins (yn lle'r Cynghorydd Julie Fallon) a’r Cynghorydd Arnold Woolley (yn lle'r Cynghorydd Neville Phillips).

Oherwydd y newidiadau, roedd bellach yn rhaid i’r Panel benodi Cefnogwr Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel newydd.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid penodi'r Cynghorydd Hugh Irving i’r swydd.

**PENDERFYNWYD-**

**(a) Nodi’r newidiadau i Banel yr Heddlu a Throsedd.**
**(b) Penodi’r Cynghorydd Hugh Irving yn Gefnogwr Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel.**

84. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I’R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i’r Aelodau.

Gofynnodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd am y diwygiadau canlynol:

- Cyflwyno’r Adroddiad Blynyddol yn y cyfarfod fis Rhagfyr (yn hytrach na chyfarfod mis Medi)
- Bod y Panel yn derbyn cyflwyniad gan Leaders Unlocked ar ddatblygu Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru – Rhagfyr 2019

Cododd y Swyddog Arweiniol a’r Cynghorydd Cyfreithiol y Gyfundrefn Gwynion newydd fel pwnc at y dyfodol gan ofyn a ellid cyflwyno adroddiad neu roi cyflwyniad i'r Panel ynghylch y newidiadau. Atebodd y Prif Weithredwr gan ddweud ei fod yn obeithiol y gellid darparu'r wybodaeth ddiweddaraf fis Rhagfyr 2019.

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol Panel yr Heddlu a Throsedd, yn amodol ar y newidiadau uchod.**

85. **AMSERLEN GYFARFOD ARFAETHEDIG AR GYFER 2019/20**

**PENDERFYNWYD-**

**Cymeradwyo amserlen gyfarfodydd 2019/20 fel a ganlyn:**

- **Dydd Llun, 17/06/19 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 30/09/19 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 09/12/19 am 2.00pm**
- **Dydd Llun, 27/01/20 am 2.00pm (cyfarfod praesept)**
- **Dydd Mawrth, 04/02/20 am 10.00am (rhag ofn y bydd feto ar y praesept)**
- **Dydd Llun, 23/03/20 am 2.00pm (dim ond os oes busnes statudol i'w ystyried)**

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.15 pm)

| | |
|---|---|
| | **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD**<br><br>**30 Medi 2019**<br><br>**PENDERFYNIADAU**<br><br>**Adroddiad y Prif Weithredwr** |

**1. RHAGARWEINIAD**

1.1 Mae'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ("y Comisiynydd") yn gyfrifol am wneud nifer o benderfyniadau drwy gydol y flwyddyn. Gall y rhain gynnwys penderfyniadau ynghylch materion fel y gyllideb a'r praesept, penodiadau, blaenoriaethau plismona a thrafodion cyfreithiol.

**2. SUT Y GWNEIR PENDERFYNIADAU**

2.1 Y Polisi Gwneud Penderfyniadau sy'n nodi'r broses y bydd Comisiynydd Gogledd Cymru yn cadw ato wrth wneud penderfyniadau. Mae'n darparu'r paramedrau, yr ymdriniaeth a'r egwyddorion ac yn amlinellu'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a chyhoeddi'r penderfyniadau a wneir.

2.2 Bydd penderfyniadau'r Comisiynydd yn ymwneud yn bennaf â chyflawni ei swyddogaethau statudol; yn ogystal, mae ar y Comisiynydd ddyletswydd statudol i gofnodi a chyhoeddi penderfyniadau o fudd cyhoeddus arwyddocaol sy'n deillio o arfer y swyddogaethau statudol hynny, boed wedi'u gwneud gan y Comisiynydd yn breifat neu o ganlyniad i gyfarfod o natur gyhoeddus neu breifat.

2.3 Mae'r gofynion statudol yng Ngorchymyn (Gwybodaeth Benodedig) Cyrff Plismona Lleol Etholedig 2011/12 a 13 ("y Gorchmynion") ar gyfer cofnodi a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol i benderfyniadau a wneir, yn gofyn am elfennau penodol er mwyn sicrhau tryloywder ac i sicrhau unplygrwydd y rhai hynny sy'n gwneud y penderfyniadau. Bydd penderfyniadau a wneir yr ystyrir eu bod o ddiddordeb i'r cyhoedd yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd ac yn cael eu cyflwyno er sylw'r Panel yn yr adroddiad hwn.

**3. CRAFFU AR BENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD**

3.1 Mae'r Panel yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am oruchwylio'r Comisiynydd a chraffu ar benderfyniadau a wneir ganddo.

3.2 Bwriad y Comisiynydd yw cyflwyno i'r panel grynodeb o'r holl benderfyniadau a wnaed ynghyd â chrynodeb o'r rheswm pam y gwnaed y penderfyniad. Bwriedir y bydd hyn o gymorth i'r Panel gyflawni ei ddyletswydd o graffu ar ei benderfyniadau.

**4. ARGYMHELLION**

4.1 Bod y Panel yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

5. **COFNOD PENDERFYNIADAU**

5.1 Mae'r tabl isod yn nodi'r penderfyniadau allweddol a wnaed o 18 Mai 2019 hyd 9 Medi 2019.

| Dyddiad | Teitl a dolenni i'r penderfyniad llawn | Crynodeb |
|---|---|---|
| 23/05/2019 | Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn | Y Comisiynydd sy'n dal yr holl gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio ar gyfer y gwasanaeth heddlu. Rhaid iddo benderfynu bob blwyddyn sut y caiff y cronfeydd wrth gefn hyn eu defnyddio. Mae cronfeydd wrth gefn yn ffynhonnell cyllid anghylchol, ac ni ddylid eu defnyddio felly i ariannu gwariant refeniw cylchol. Penderfynodd y Comisiynydd, gan ystyried cyngor ei Brif Swyddog Cyllid, i ddyrannu i'r cronfeydd wrth gefn yn unol â'r atodlen isod.<br><br>Mae gofyniad cyfreithiol ar y Comisiynydd i ddal cronfeydd wrth gefn, ac ni ddylai'r cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio fynd i "orddrafft".<br><br>Gan fod cronfeydd wrth gefn yn ffynhonnell gyllid anghylchol, maent yn cael eu defnyddio i: cwrdd â risgiau yn y gyllideb, hwyluso rhaglenni newid, helpu ariannu'r contract PFI, ac ar gyfer buddsoddi cyfalaf. |

| **Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn 2018-19** | **Balans ar 31 Mawrth 2018**<br><br>**£'000** | **Trosglwyddiadau Allan 2018-2019**<br><br>**£'000** | **Trosglwyddiadau i Mewn 2018-2019**<br><br>**£'000** | **Balans ar 31 Mawrth 2018**<br><br>**£'000** |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa wrth gefn gyffredinol | 5,189 | -797 | 0 | 4,392 |
| **Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | | | |
| Cronfeydd Wrth Gefn Cyfalaf | 2,341 | -970 | 689 | 2,060 |
| Cronfa wrth gefn pensiynau iechyd gwael | 915 | 0 | 0 | 915 |
| Cronfa Wrth Gefn PFI | 4,212 | 0 | 121 | 4,333 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn Digwyddiadau Mawr | 2,435 | 0 | 0 | 2,435 |
| Cronfa Wrth Gefn Yswiriant | 1,173 | 0 | 0 | 1,173 |
| Diogelwch a Chynnal a Chadw Stadau | 1,237 | -204 | 0 | 1,033 |
| Cronfa Wrth Gefn Balansau Partneriaeth | 552 | 0 | 101 | 653 |
| Cronfa Wrth Gefn Rheoli Newid | 5,881 | 0 | 68 | 5,949 |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd | 227 | -25 | 259 | 461 |
| Cronfa Wrth Gefn Gyfreithiol (OPCC) | 51 | 0 | 5 | 56 |
| Cronfa Wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | 182 | 0 | 0 | 182 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd** | **19,206** | **-1,199** | **1,243** | **19,250** |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn** | **24,395** | **-1,996** | **1,243** | **23,642** |
| **Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf** | **1,487** | **-1,702** | **224** | **9** |
| **Cyfanswm yr holl gronfeydd wrth gefn** | **25,882** | **-3,698** | **1,467** | **23,651** |
| | | | | |

| | | |
|---|---|---|
| 13/06/2019 | Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern | Gofynnwyd i bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu gyfrannu at y Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern, i ddarparu cefnogaeth ariannol ar gyfer y Llinell Gymorth Caethwasiaeth Fodern. Gofynnwyd i bob ardal heddlu gyfrannu £10,000.<br><br>O ystyried fod Gogledd Cymru yn heddlu bach, sy'n cynrychioli ychydig mwy na 1% o boblogaeth y DU, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi penderfynu cyfrannu £2,500, i'w ariannu o'r Gronfa Trosedd ac Anhrefn.<br><br>Caethwasiaeth Fodern yw un o flaenoriaethau plismona'r Comisiynydd a bydd darparu cyllid i'r Llinell Gymorth yn helpu mynd i'r afael â hyn. |
| 03/07/2019 | Maes Tanio Gynnau | Ni fu unrhyw welliannau sylweddol i Faes Tanio Gynnau Heddlu Gogledd Cymru ers ei agor ym 1999. Yn ogystal â'r gwaith a |

| | | |
|---|---|---|
| | | gytunwyd arno'n flaenorol i ddad-wrthdaro'r safle (sy'n costio £62,650) y bwriad yw gwario £390,900 ychwanegol i wneud gwelliannau, a fydd yn galluogi Heddlu Gogledd Cymru i barhau ac ymestyn darpariaeth cyfleusterau hyfforddi ar gyfer heddluoedd eraill yng Nghymru a Lloegr.<br><br>Bydd y prosiect yn cael ei ariannu o adnoddau cyfalaf. Rhagwelir y gellir cyflawni incwm blynyddol o oddeutu £30,000 yn sgil gwella'r cyfleuster hwn.<br><br>Dylid nodi hefyd bod rhai cyfleusterau yn y maes tanio gynnau yn nesáu at ddiwedd eu hoes weithredol, ac y byddai angen eu disodli o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf er mwyn parhau i hyfforddi ar y safle hwn. |
| 03/07/2019 | Mapio Digidol | Ni fydd y system fapio ddigidol gyfredol yn parhau i gael ei chefnogi ar ôl mis Mehefin 2019.<br><br>Bydd gweinyddion rydym eisoes yn berchen arnynt yn cael eu rhoi i ddefnydd newydd i ddarparu'r system fapio ddigidol newydd. Amcangyfrifir mai'r gost yn y flwyddyn gyntaf yw £78,420.20, gyda chostau refeniw parhaus o £5,299 y flwyddyn.<br><br>Mae mapio digidol yn greiddiol i weithrediadau plismona, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cymaint o ddibenion: popeth o ganiatáu'r ystafell reoli i ddarparu manylion cyfeiriad cywir, i ddeall galw, sy'n bwydo i mewn i gynllunio adnoddau.<br><br>Mae cost bosibl hyn wedi ei liniaru gan ddefnyddio gweinyddion rydym eisoes yn berchen arnynt, yn hytrach na bod angen capasiti storio digidol.<br><br>Darparwyd cyllid o'r Gronfa Gyfalaf. |
| 03/07/2019 | Prosiect Ieuenctid | Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Comisiwn Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yng Ngogledd Cymru rhwng 14 a 25 oed.<br><br>Bydd gwasanaethau Leaders Unlocked, sy'n fenter gymdeithasol ddielw gyda Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Cymru yn cynnig prosiect cyfranogiad, ymgysylltu ac |

| | | |
|---|---|---|
| | | ymgynghori ag ieuenctid i sefydlu Comisiwn Ieuenctid yng Ngogledd Cymru.<br><br>Mae hwn yn brosiect naw mis, a'i ddiben yw ymgysylltu â hyfforddi grŵp craidd o bobl ifanc a fydd yna'n cynnal ymgysylltu â chyfoedion gydag oddeutu 1,500 o bobl o bob cwr o Ogledd Cymru. Bydd y prosiect yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. |
| 03/07/2019 | Cwmni Theatr Arad Goch | Mae'r Comisiynydd wedi cymeradwyo cyfraniad o £3,000 i Gwmni Theatr Arad Goch.<br><br>Byddant yn cefnogi cynllun peilot i ddarparu cynhyrchiad Hudo/Tempted i 4 ysgol uwchradd ar draws Gogledd Cymru.<br><br>Mae'r cynhyrchiad yn canolbwyntio ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ac yn cefnogi darparu blaenoriaethau'r Comisiynydd.<br><br>Bydd y cynllun peilot yn cael ei werthuso cyn yr ymrwymir unrhyw gyllid pellach.<br><br>Darparwyd y cyllid o gyllideb swyddfa'r Comisiynydd. |
| 16/07/2019 | Brake, yr Elusen Diogelwch ar y Ffyrdd | Mae'r Comisiynydd wedi cymeradwyo cyfraniad o £2,500 i Brake, yr Elusen Diogelwch ar y Ffyrdd.<br><br>Bydd hyn y cefnogi'r Elusen i ddarparu gwasanaethau cynnal arbenigol ar gyfer dioddefwyr damweiniau ffordd yng Ngogledd Cymru. Defnyddir y gwasanaeth hwn yn rheolaidd gan Heddlu Gogledd Cymru sy'n cynnig adborth cadarnhaol ac yn rhoi gwerth mawr ar y gwasanaethau a gynigir gan Brake.<br><br>Cynhyrchir a dosbarthir pecynnau profedigaeth damweiniau ffordd i Swyddogion Cyswllt Teuluol i gefnogi dioddefwyr damweiniau ffordd. Mae Brake hefyd yn cynnig cefnogaeth, hyfforddiant ymwybyddiaeth ac arweiniad i Swyddogion Cyswllt Teuluoedd.<br><br>Darparwyd y cyllid o gyllideb swyddfa'r Comisiynydd. |

| | | |
|---|---|---|
| 07/08/2019 | Llythyr yn gwarantu gwarant bond cronfa bensiwn staff APCC | Gwarantu gwarant bond cronfa bensiynau staff Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC).<br><br>Mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, mae'r Comisiynydd; a phob Comisiynydd yng Nghymru a Lloegr, wedi rhoi cymeradwyaeth i warantu gwarant bond pensiynau staff APCC.<br><br>Cefndir y mater hwn yw bod Cronfa Bensiynau Glannau Mersi wedi gorchymyn yn ddiweddar fod yr APCC yn darparu bond, i ddarparu ar gyfer y sefyllfa annhebygol y bydd yr APCC yn gadael Cronfa Bensiynau Glannau Mersi ac, ar y pryd hwnnw, bydd angen gwneud cyfraniad i Lannau Mersi i dalu am gostau pensiwn staff yn y dyfodol. Y swm a gedwir wrth gefn yw oddeutu £917,000 sy'n anghymesur i sefydliad o faint yr APCC. Mae Bwrdd yr APCC wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Chronfa Bensiynau Glannau Mersi a gyda Chymdeithas Trysoryddion Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i nodi'r ffordd orau i fynd i'r afael â hyn.<br><br>Trafodwyd y mater gyda Thrysoryddion yr Heddlu ac maent yn fodlon gyda'r dull hwn. |

5.2 {Ceir Gwybodaeth Ychwanegol ar wefan y Comisiynydd ('**Sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau**').

**6. TRAFODION CYFREITHIOL**

6.1 Yn unol â'r "Gorchmynion", mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi gwybodaeth ar y Contractau, Trafodion Eiddo ac Hepgoriadau i'r Rheolau Sefydlog y mae wedi eu cymeradwyo.

6.2 Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar y Cyd er eu gwybodaeth a'u craffu.

6.3 Gellir dod o hyd i'r adroddiad diweddaraf ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 30 Mehefin 2018 trwy glicio https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/Gwybodaeth/Adroddiadau-Cyfreithiol.aspx.

**7. PAPURAU CEFNDIR**

7.1 Polisi Gwneud Penderfyniadau, Swyddfa Comisiynydd Gogledd Cymru

7.2 Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodol) 2011

7.3 Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2012

7.4 Gorchymyn Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Gwybodaeth Benodedig) (Diwygio) 2013

**Awdur yr Adroddiad**

Stephen Hughes, Prif Swyddog Gweithredol
Meinir Jones, Swyddog Gweithredol

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf i Banel yr Heddlu a Throsedd**
**30 Medi 2019**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

**Rhagarweiniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel o'r cyfnod 1 Mai tan 1 Awst 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â pherfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Nid yw'r adroddiad yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28 (6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gennyf fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) y Ddeddf, mae'n darparu gwybodaeth i'r Panel lle mae'r Panel yn gofyn amdano yn rhesymol gan y Comisiynydd ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau (y gofynion penodol).

**Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru**

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol, yn 2017-2021, fy mod i wedi penderfynu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel prif feysydd bygythiad, risg a niwed. Sef:

- **Cam-drin domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Bant)**
- **Trosedd Gyfundrefnol**

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi dweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Adolygais fy Nghynllun ym mis Mawrth 2019 ac er bod y blaenoriaethau uchod yn dal wedi eu cynnwys, cyflwynais hefyd flaenoriaeth drosfwaol o **leihau cam-fanteisio troseddol ar bobl ddiamddiffyn.**

Yn unol â hynny, rwyf nawr yn craffu ar Heddlu Gogledd Cymru trwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Y prif gyfrwng rwyf yn ei ddefnyddio i gyflawni'r swyddogaeth graffu honno yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol sy'n cael ei gadeirio gennyf, ac y mae'r prif gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad perfformiad gan yr Heddlu ym mhob cyfarfod SEB sy'n nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol mewn perthynas â phob blaenoriaeth.

Er byddaf yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn yn fy nghyfarfodydd SEB, mae'n ofynnol wrth gwrs bod agweddau eraill ar blismona yn parhau i gael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn hynny o beth, craffir ar rywfaint o wybodaeth am blismona craidd yn yr SEB hefyd.

**Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig**

**Dioddefwyr sy'n Dioddef Trosedd eto o fewn 12 mis –** mae YTD Wythnos 14 yn dangos cynnydd o 2.3%, a nifer y Dioddefwyr eildro yn sefydlog dros amser.

**Troseddwyr sy’n Aildroseddu o fewn 12 mis** – Gwelwyd gostyngiad o 9.2% mewn troseddwyr sy’n aildroseddu yn ystod y flwyddyn hyd yma. Mae troseddwyr yn parhau i fod yn y grŵp oedran 25-34 oed yn bennaf.

**Hyder a Bodlonrwydd Dioddefwyr Cam-drin Domestig -** Rhwng 28 Tachwedd 2018 ar ddiwedd mis Mai 2019, cynhaliwyd 254 o arolygon dioddefwyr Cam-drin Domestig. Roedd yn galonogol pa mor uchel oedd cyfraddau bodlonrwydd ar gyfer dioddefwyr domestig gan gynnwys dioddefwyr risg uchel. Mae canlyniadau’n dangos lefelau bodlonrwydd o 91.2% ar gyfer Cyswllt; 90.0% ar gyfer Camau a Gymerwyd; 96.1% ar gyfer Cymorth DAO; 70.3% ar gyfer Dilyniant ac 86.6% ar gyfer y Profiad Cyfan.

Cwestiynodd Aelod o’r Panel yn y cyfarfod diwethaf pam fod Bodlonrwydd Dilyniant mewn perthynas ag achosion Trais Domestig yn isel a holwyd a oedd hwn yn fater o ran adnoddau / hyfforddiant; Rydym yn dal i edrych i mewn i’r mater hwn a thrafodwyd y mater gyda’r Llu yn y Bwrdd Gweithredol Strategol diweddaraf. Rydym wedi awgrymu y gallai'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr a'r Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig efallai gynorthwyo gyda’r mater hwn a mynd i’r afael â’r anfodlonrwydd.

**Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig –** Fel ar Wythnos 14, bu gostyngiad o 15.0% yn yr achosion Cam-drin Domestig lle’r oedd o leiaf un Hysbysiad Diogelu Trais Domestig wedi’i roi. Mae defnydd a gweithrediad yr Hysbysiadau Diogelu yn dal yn gryf iawn yng Ngogledd Cymru, rydym yn gweld nifer sylweddol o geisiadau yn cael eu gwneud i’r llysoedd sy’n cael eu cefnogi. Mae ymchwil academaidd yn cael ei wneud ar hyn o bryd i archwilio effeithiolrwydd ac effaith y defnydd o Hysbysiadau Diogelu. Mae’r ymchwil hwn wedi’i drafod gyda, ac yn cael ei gefnogi gan y Coleg Polismona.

Yn ystod cyfarfod diwethaf y Panel, cwestiynodd y Cyng Chris Bithell pam fod cynnydd yn nifer y rhai oedd yn dioddef eilwaith o fewn 12 mis, ac awgrymodd y Prif Gwnstabl y gallai fod rhywfaint o gydberthyniad rhwng nifer y dioddefwyr oedd yn dioddef trosedd fwy nac unwaith a'r defnydd o Hysbysiadau Diogelu Trais Domestig. Bydd y gydberthyniad rhwng erlid fwy nag unwaith a’r defnydd o Hysbysiadau Diogelu yn cael ei archwilio yn yr ymchwil a gyfeirir ato uchod

Ar Wythnos 14, cafwyd delweddau tystiolaeth o **Fideo a Wisgir ar y Corff** mewn 3.4% o achosion o Gam-drin Domestig. Coda hyn i 16.5% lle mae Hysbysiadau Diogelu wedi eu rhoi.

Mae gwaith yn dal ar y gweill i sefydlu grŵp SEEDS (Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr) a fydd yn defnyddio profiad dioddefwyr/ goroeswyr DA i wella polisi, hyfforddiant ac arferion gwaith.

Mae lleoedd wedi eu harchebu ar gyfer Swyddogion Cam-drin Domestig o bob un o’r tair ardal ar yr hyfforddiant ‘Menter Mankind’, a ariannwyd gan y Swyddfa Gartref. Bydd yr hyfforddiant hwn hefyd yn cael ei estyn i bob Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol.

Nodwyd yn ddiweddar ar y Bwrdd Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru, sy’n cael ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr, fod hyfforddiant i Swyddogion Cam-drin Domestig yn ddiffygiol yn y rhanbarth ac mae cynlluniau ar droed ar hyn o bryd i ddylunio mewnbwn hyfforddiant arbenigol ar gyfer Swyddogion Cam-drin Domestig. Mae’r gwaith hwn yn barhaus.

Yn ogystal â'r hyfforddiant arbenigol i Swyddogion Cam-drin Domestig, mae hyfforddiant cam-drin domestig yn cael ei gaffael ar hyn o bryd ar gyfer yr holl staff rheng flaen. Rwyf wedi bod yn rhoi pwysau ar y Llu i symud yn sydyn i gyflwyno hyfforddiant "Domestic Abuse Matters" (pecyn hyfforddiant Cam-drin Domestig y Coleg Plismona) ac rwy'n gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ynghylch y broses gaffael. Yn sgil yr adroddiad IOPC i ymwneud y Llu â Ms Laura Stuart cyn ei llofruddiaeth, a'r argymhellion ategol, mae'n hollbwysig fod yr hyfforddiant hwn yn cynnwys yr hyfforddiant mwyaf cyfredol ynghylch 'ymddygiad cymhellol a rheolaethol' a stelcian ac aflonyddu.

Mae Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn Heddlu Gogledd Cymru (PVPU) yn peilota cynllun newydd o'r enw Tasgu Cyflawnwyr Cam-drin Domestig Asiantaethau (ADAPT) yn yr ardal Ganolog a fydd yn fyw erbyn diwedd mis Medi.

Bydd y cynllun peilot ADAPT yn gweithio gyda throseddwyr Cam-drin Domestig sy'n troseddu eto er mwyn eu hymrestru gyda chymorth yr asiantaeth bartneriaeth i leihau'r perygl maent yn peri i ddioddefwyr. Mae hwn yn ddull tebyg i broses MARAC sy'n gweithio gyda dioddefwyr.

Amcanion y cynllun peilot yw

- amddiffyn dioddefwyr a'u plant;
- nodi anghenion asesu mewn perthynas â'r cyflawnwr;
- nodi unrhyw berygl o niwed cynyddol arfaethedig i eraill;
- nodi unrhyw risg arfaethedig o droseddu pellach gan y cyflawnwr;
- cefnogi, atal a chanfod trosedd a dal ac erlyn troseddwyr.

Cynhelir cyfarfodydd cynhadledd amlasiantaeth ADAPT bob 4 wythnos. Bydd y tîm wedi eu lleoli o fewn PVPU Llanelwy a bydd yn defnyddio data dadansoddol o wybodaeth yr heddlu i nodi cyflawnwyr i'w hymrestru.

Mewn perthynas â phob trosedd lle mae dioddefwr wedi ei ganfod, mae'n orfodol i gynnal asesiad o ba mor agored ydynt i drosedd. Y dewisiadau ar gyfer cynnal a chofnodi'r asesiad hwnnw drwy naill ai ddefnyddio CID 16 neu'r Templed Asesiad Pobl sy'n Agored i Niwed. Dylai CID 16 ond cael ei gyflwyno i Uned Atgyfeirio Ganolog y Llu mewn perthynas â rhai lle mae'r canfyddiad o risg yn uchel. Newidiwyd y diffiniad o risg uchel ychydig fisoedd yn ôl mewn ymateb uniongyrchol i argymhelliad yr HMIC ac mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yn yr atgyfeiriadau i Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig ac i Gynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC). Mae llif yr achosion a gyfeiriwyd i MARAC yn rhan o'r adolygiad MARAC cyfredol. Cefnogir yr Adolygiad MARAC gan y tîm VAWDASV Rhanbarthol.

Holais y PVPU yn ddiweddar sut maent yn sicrhau y gweithredir amodau mechnïaeth priodol mewn achosion trais domestig ac nad yw unigolion dan amheuaeth yn cael eu Rhyddhau yn ystod Ymchwiliad heb i unrhyw amodau gael eu hatodi. Rwyf wedi cael fy sicrhau fod achosion Cam-drin Domestig yn cael eu monitro'n fisol o ran y niferoedd sy'n mynd drwy'r ddalfa a gweithrediad mechnïaeth amodol i sicrhau fod y niferoedd hyn yn gwella.

Dywedwyd wrthyf yn fy nghyfarfod Bwrdd Gweithredol Strategol ym mis Gorffennaf fod hyrwyddo arestiadau yn ymwneud â Cham-drin Domestig a oedd yn arwain at ryddhau ar fechnïaeth amodol yn duedd sy'n parhau i fod ar gynnydd. Ar Wythnos 14 arweiniodd 16.2% o bresenoldeb yn ymwneud â cham-drin domestig mewn dalfeydd at roi mechnïaeth amodol.

Mae aelod o'r tîm yn eistedd ar Grŵp Tasg a Gorffen Ymchwilio Safonau (a gadeirir bob mis gan yr ACV) lle mae ansawdd yr amodau hynny'n cael ei fonitro.


**Bwrdd Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gogledd Cymru (Bwrdd VAWDASV):**


Bydd Aelodau'r Panel yn cofio mai fy Swyddfa yw cefnogwr grant VAWDASV Llywodraeth Cymru a'n bod, drwy Fwrdd VAWDASV Gogledd Cymru, wedi cyfuno'r grant hwn gyda'n harian VAWDASV ein hunain, er mwyn comisiynu gwasanaethau mewn modd mwy llyfn yn ystod 2018/19. Yn ystod 2018/19, y gwasanaethau a ddarparwyd yn y rhanbarth, gan ddefnyddio grant OPCC a VAWDASV (Llywodraeth Cymru) oedd:

- Tîm VAWDASV Rhanbarthol, yn cynnwys Ymgynghorydd Rhanbarthol, dau Swyddog Datblygu a Swyddog Cymorth Busnes.
- Darpariaeth IDVA llawn ym mhob un o'r chwe awdurdod lleol.
- Darpariaeth ISVA i gynnwys chwe awdurdod lleol, wedi eu lleoli yn yr SARC. Cyflogir ISVAs yn uniongyrchol gan y SARC.
- Choose2Change (rhaglen cyflawnwyr) yn Wrecsam a Sir y Fflint.
- Tadau Gofalgar (rhaglen Cefnogi Teuluoedd) yng Nghonwy a Sir Ddinbych a Gwynedd ac Ynys Môn.

**Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern**

Dioddefwyr: O'r dioddefwyr a ddiogelir dros y 12 mis diwethaf, mae 51 (71%) o'r troseddau a adroddwyd wedi bod mewn perthynas â chaethwasanaeth domestig, 6 (8%) i hwyluso teithio a 15 (21%) o lafur dan orfodaeth. Mae mwyafrif llethol y dioddefwyr yn wyn a Phrydeinig, ac mae mwyafrif y dioddefwyr dan 20 oed.






Mae'r graff uchod yn dangos bod cynnydd wedi bod yn y misoedd diwethaf yn y Wybodaeth am Gaethwasiaeth Fodern.

**Diogelu**

Cynhaliwyd Ymgyrch Blue Steel yn ardal Glannau Dyfrdwy'n ddiweddar. Roedd yr ymgyrch hon yn cynnwys cynnal chwiliadau mewn mannau cyhoeddus lle mae gwybodaeth yn nodi fod gweithgaredd wedi'i reoli yn ymwneud â chyffuriau'n digwydd. Mae tueddiadau lleol a rhanbarthol yn nodi bod y rhai hynny sy'n gysylltiedig â gweithgaredd Llinellau Sirol yn y maes cyffuriau yn cuddio arfau mewn mannau cyhoeddus i ddiogelu eu hunain a lleihau'r siawns o gael eu dal gan yr heddlu gydag arfau, a'u cadw'n agos wrth law os ydynt yn credu bod arnynt eu hangen. Bwriad y chwiliadau hyn yw canfod ac atafaelu arfau o'r fath.

Cymerodd staff Caethwasiaeth Fodern ran mewn diwrnod datblygiad proffesiynol yn Ysbyty Gwynedd ar gyfer saith deg o ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol. Roedd hyn yn cynnwys paratoadau wedi eu dilyn gan sesiynau holi ac ateb. Dyma rai o'r testunau a drafodwyd:-

- Y darlun byd-eang
- Deddf Caethwasiaeth Fodern
- Mathau o Gaethwasiaeth
- Smyglo / Masnachu
- Cyfeirwyr Caethwasiaeth Fodern
- Ffactorau risg
- Rhwystrau i ddatgelu
- Mecanweithiau Cyfeirio Cenedlaethol
- Diogelwch Ar-lein

**Paratoi**

Mae ugain o swyddogion bellach wedi cwblhau Cwrs Ymchwilwyr Arbenigol Uned Drawsnewid yr Heddlu. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'r nifer o swyddogion a hyfforddwyd ym mis Ionawr 2018, sef tri. Mae pedwar lle arall wedi eu sicrhau ar gyrsiau ychwanegol yn ystod gweddill 2019.

Mae disgwyl i Swyddogion Plismona Ffyrdd a swyddogion y Gynghrair Arfog fynychu sesiynau ymwybyddiaeth MDS, gyda'r nod o gynyddu eu gwybodaeth ynghylch Caethwasiaeth Fodern os

byddant yn dod i gyswllt â cherbydau ar y prif ffyrdd sy'n cael eu defnyddio i symud dioddefwyr i, o neu drwy Ogledd Cymru.

Mae gwaith yn parhau i wella cwmpas darpariaeth canolfannau derbyn ar gyfer dioddefwyr Cam-drin Domestig o fewn Gogledd Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn defnyddio adeilad Byddin yr Iachawdwriaeth dros dro at y diben hwn. Mae'r Tîm Caethwasiaeth Fodern ar hyn o bryd yn cwmpasu datrysiadau mwy parhaol gyda'r awdurdodau lleol.

**Atal**

Mae fy Swyddfa wedi llwyddo sicrhau ychydig o gyllid grant drwy Gronfa Trawsnewid Caethwasiaeth Fodern. Bwriad fy nhîm yw defnyddio'r cyllid i gynnal cynhadledd Caethwasiaeth Fodern ym mis Rhagfyr 2019 a fydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern mewn gweithleoedd ac ardaloedd busnes allweddol yn y sector preifat yng Ngogledd Cymru. Bwriad y codi ymwybyddiaeth yw lleihau'r cyfle i rai sy'n ymelwa i ddod o hyd i swyddi ar gyfer dioddefwyr yng Ngogledd Cymru. Bydd y gynhadledd yn cael ei threfnu ar y cyd gan aelodau o Grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae pob un o'r 6 awdurdod lleol a phartneriaid cyfiawnder troseddol wedi cytuno i ariannu swm enwol tuag at y gynhadledd.

**Erlid**

Yn unol ag argymhellion adolygiad diweddar, caiff pob ymchwiliad Caethwasiaeth Fodern eu goruchwylio gan Dditectif Arolygydd. Nod hyn yw sicrhau ansawdd ymchwiliadau a sicrhau bod pob cyfle ymchwiliol wedi eu cyflawni.


Mae busnesau penodol yn llawer mwy tebyg o fod yn agored i gaethwasiaeth fodern. Mae'r diwydiant twristiaeth (gwestai ac ati), adeiladu, amaeth, asiantaethau cyflogaeth ac ati i gyd yn feysydd diwydiant preifat sy'n ceisio sicrhau gweithio byrdymor ac yn fwy tebygol i ddod i gyswllt ag agweddau caethwasiaeth fodern, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Drwy ein gwaith gyda phartneriaid yn y blynyddoedd diwethaf, daeth yn amlwg, er fod y busnesau hyn yn agored i gaethwasiaeth fodern, ychydig wybodaeth a dealltwriaeth sy'n dal i fod am y mater a sut mae'n edrych yn eu maes masnachu nhw.


Ddwy flynedd yn ôl, cynhaliodd Comisiynydd yr Heddlu gynhadledd ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth am ddyletswyddau cyfreithiol a moesol y sector cyhoeddus. Nod y gynhadledd hon yw anfon neges i'r sector preifat i addysgu a hysbysu sut y gall caethwasiaeth fodern amlygu ei hun mewn modelau busnes, sut i sylwi ar yr arwyddion ac, yn bwysicaf oll, beth i'w wneud i amddiffyn dioddefwyr posibl.

Bydd gweithgor o bartneriaid allweddol gan gynnwys Uned Gaethwasiaeth Fodern Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud y gwaith i gynnal y digwyddiad hwn.

**Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol (gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Bant)**

Troseddau o dreisio a adroddwyd fesul 1000 o'r Boblogaeth yn y 12 Mis hyd at fis Ebrill 2019:




Mae'r set ddata ar gyfer y deuddeg mis hyd at fis Ebrill 2019 yn dangos, o blith pedwar deg dau o luoedd yr heddlu, mai Gogledd Cymru yw'r 10fed llu uchaf o ran y troseddau o dreisio a adroddwyd a'r 11fed uchaf o ran y canlyniadau positif ar gyfer troseddau o dreisio, yr ail yn ein grŵp o luoedd mwyaf tebyg. Fodd bynnag, mae Cyfradd Erlyn Treisio ar gyfer Gogledd Cymru'n parhau i fod ychydig is na'r cyfartaledd cenedlaethol ar 57.7% (Cyfartaledd Cenedlaethol 63.5%). Rwyf wedi gofyn i'r Llu egluro'r gwahaniaeth rhwng y data canlyniadau cadarnhaol a'r gyfradd o gollfarnau.

Mae'r gyfradd gollfarnau troseddau Rhyw yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar 85% (Cyfartaledd Cenedlaethol o 82.2%).


Bu cynnydd mewn achosion lle chafwyd Dim Camau Pellach. Trefnwyd Cyfarfod Treisio â Throseddau Rhywiol Difrifol gyda'r CPS i adolygu a deall y cynnydd hwn.


Mae'r Grŵp Strategol Trais Rhywiol yn dal i gwrdd ac yn adrodd i'r Bwrdd VAWDASV. Mae gwaith ar y gweill ar sut i gysylltu â cholegau a phrifysgolion i fagu hyder unigolion o gymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig i roi gwybod am achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol.

Dros y pedair blynedd ddiwethaf, gwelwyd cynnydd o 123% yn yr adroddiadau o dreisio. Fodd bynnag, mae'r tîm ymateb i drais ond wedi tyfu o bedwar aelod. Rwyf wedi gofyn i'r Llu egluro sut, os o gwbl, mae'r cynnydd yn y ffigyrau wedi effeithio ar y staff. Yn 18/19, roedd pob swyddog yn Amethyst yn delio ag 11 trosedd fesul swyddog ar unrhyw adeg benodol.

**CSE:**

Mae'r Llu wedi rhoi gwybod i mi fod gostyngiad o un flwyddyn i'r llall wedi bod mewn achosion o CSE (cam-fanteisio'n rhywiol ar blant) i raddau helaeth oherwydd y lefelau uwch a welwyd yn hanner cyntaf 2017/18. Mae'r duedd o ran gwybodaeth yn ymwneud â CSE yn sefydlog, ac roedd lefelau mis Rhagfyr 2018 yn anarferol o isel. Mae'r ffigyrau presennol ar gyfer mis Mehefin 2019 yn dangos 78 cynnig.




Mae hyfforddiant amlasiantaeth ACSEP (Ymarferwyr CSE Uwch) wedi ei ddarparu gan PACE (Rhieni yn Erbyn Camfanteisio ar Blant) i staff o Heddlu Gogledd Cymru, Conwy ac Awdurdod Lleol Ynys Môn. Roedd yr hyfforddiant yn trafod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant.

Rwy'n sicr y dylai hyfforddiant ar y cyd sicrhau mwy o waith wedi'i gydgysylltu a dealltwriaeth wedi'i rannu'n well o gamfanteisio ar blant.

Mae cwblhau cyfweliadau dychwelyd adref yn parhau i fod yn anghyson ar draws y chwe ardal Awdurdod Lleol, ac nid yw plant mewn rhai Awdurdodau Lleol yn derbyn cyfweliadau dychwelyd adref ar ôl achosion o fod ar goll hyd yn oed os yw eu hachos yn agored i'r gwasanaethau cymdeithasol. Oddeutu 16% yw'r gyfradd gwblhau ar gyfer ALl yn chwarter cyntaf 2019. Fodd bynnag, rwy'n hyderus ein bod yn symud tuag at gytuno ar bolisi Dychwelyd Adref drwy'r Bwrdd Diogelu Oedolion, ac y bydd y symudiad hwn yn helpu gwella'r sefyllfa bresennol.

Rwyf wedi cael sawl cyfarfod gyda'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol sydd wedi ymchwilio i fendithion cyfweliadau dychwelyd adref a bydd yn sefydlu Grŵp Llywio Cymru Gyfan o amgylch cyfweliadau Dychwelyd Adref. Byddaf yn cael fy nghynrychioli ar y grŵp hwn gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Medi.

Mae Uned CSE Heddlu Gogledd Cymru yn cysylltu gyda busnesau bwyd cyflym cenedlaethol i godi ymwybyddiaeth o CSE a diogelu cyffredinol ar gyfer plant coll.

**CSE ar-lein:**


Ers 1 Ebrill 2019, bu 34 atgyfeiriad i POLIT (Tîm Ymchwilio Ar-lein Pedoffiliaid):

Pwyntiau allweddol ar gyfer y chwarter diwethaf:

- Mae 32 warant wedi arwain at arestio 19 oedd dan amheuaeth, 3 ohonynt wedi troseddu o'r blaen;
- Cafodd un dioddefwr ei ganfod o'r 109 o atgyfeiriadau (yn 18/19) i POLIT, fodd bynnag cafodd 29 o unigolion eu diogelu;
- Ers 1 Ebrill 19, mae HGC wedi rhannu 7 pecyn Gwybodaeth i Asiantaethau Gorfodi'r Gyfraith eraill lle mae troseddwyr posibl wedi eu nodi yn sgil ymchwiliadau HGC;

**Blaenoriaeth 4: Troseddau Cyfundrefnol**

Ar hyn o bryd mae 29 Grŵp Troseddu Cyfundrefnol sydd wedi eu mapio a'u rheoli gan HGC. Ar hyn o bryd mae 28 o Linellau Sirol yn effeithio ar Ogledd Cymru a herion a crac cocên sy'n parhau i fod yn nwyddau sylfaenol.  Glannau Mersi yw'r ardal sy'n allforio'n bennaf.



Mae nifer o unigolion o Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol wedi eu herlyn yn y llys yn ddiweddar ac wedi derbyn dedfrydau hir o garchar.

**Ymgyrch Loot** – Cafodd grŵp o bedwar unigolyn a oedd yn rhan o gynllwyn i gyflenwi cyffuriau Dosbarth A eu dedfrydu i gyfanswm o ychydig mwy na 15 mlynedd.

**Ymgyrch Bardot** – Cafod un o'r prif aelodau ac aelodau eraill arwyddocaol o OCG a oedd yn cyflenwi cyffuriau eu dedfrydu i 10 mlynedd, 4 mis, a 56 mis yn y drefn honno. Roedd yr eitemau a atafaelwyd yn cynnwys £600,000 o gyffuriau a 5 o ynnau.

**Cronfa Ieuenctid Ymyrraeth Gynnar:**

Nod y gronfa hon yw mynd i'r afael â thrais difrifol sy'n effeithio ar bobl ifanc yng Nghymru. Mae cyllid wedi'i ddarparu i Crimestoppers, Ymddiriedolaeth St Giles a GemauStryd mewn perthynas â'r Prosiect hwn.

**Crimestoppers -** Mae gweithiwr achosion 'Di-ofn' wedi ffurfio perthnasau yng Ngogledd Cymru ac wedi darparu sesiynau Di-ofn i ysgolion, clybiau ieuenctid a hyfforddi gweithwyr proffesiynol. Lansiodd Crimestoppers Cymru ffilm Llinellau Sirol ar 19 Mehefin.

**GemauStryd –** Ar draws Gogledd Cymru, mae GemauStryd yn cefnogi 22 o Glybiau Chwaraeon Stepen Drws (DSC). Mae DSC yn ymyriadau mynediad agored yn seiliedig ar chwaraeon cymunedol sydd wedi eu cynllunio i wella hyder a chymhelliant pobl ifanc dan anfantias, cynyddu'r hapusrwydd o fewn cymunedau a chyfrannu'n gadarnhaol at faterion cymdeithasol ehangach drwy ddylunio a darparu eu darpariaethau. Maen nhw wedi bod yn gweithio gyda dadansoddwyr gwybodaeth HGC sydd wedi darparu mapio mannau lle mae llawer o ASB i'w caniatáu i groesgyfeirio'r DSC presennol yn erbyn lefelau uchel o droseddau ieuenctid / ASB. Lle nad yw DSC yn y lleoliadau hyn, mae GemauStryd yn archwilio gyda phartneriaid sut y gallant ddatblygu darpariaethau newydd. Bydd GemauStryd yn datblygu cynlluniau 'Chwaraeon a Throseddau Ieuenctid' ar draws pob rhanbarth ac yn mesur effaith wrth symud ymlaen.

**Ymddiriedolaeth St Giles –** Nod Ymddiriedolaeth St Giles yw gweithio gyda 15 o bobl ifanc i gefnogi'r rhai hynny sydd mewn perygl o drais difrifol, llinellau sirol a throseddau â chyllyll Mae'r gwaith 1:1 yn bwrpasol ac wedi'i deilwra i anghenion y person ifanc.

Darparodd tri siaradwr o Ogledd Cymru gan gynnwys 2 o HGC weithdy ar Brosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl yn y Gynhadledd Creu Cymunedau Mwy Diogel yng Nghasnewydd ar 2 Gorffennaf 2019.

**Prosiectau Cymunedol:**

Mae'r Llu ar hyn o bryd yn cynhyrchu proffiliau lleol Trais Difrifol a Throseddau Cyfundrefnol (SVOC) yn lleol. Nod y proffiliau yw canfod materion ar y cyd o bob asiantaeth sy'n cyfrannu tuag at y bygythiad ehangach o SVOC. Yn draddodiadol, ystyrir SVOC yn fater plismona ond mae ysgogwyr negyddol yn arwain at SVOC fel mynediad gwael i wasanaethau, absenoldeb cyson o ysgolion a

chamddefnyddio sylweddau yn faterion partneriaeth. Bydd y gwaith hwn yn unol â'r Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol a Strategaeth Trais Difrifol y Swyddfa Gartref.

**Blaenoriaeth 5: Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**

O ran **Heddlu'n Deall Materion Cymunedol,** mae Gogledd Cymru'n 6ed yn genedlaethol gyda 73.7% ar gyfer y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2018, cynnydd o 0.3 y pen ar y 12 mis hyd at fis Medi 2018. Rydym hefyd yn codi i 2il yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg a 1af yng Nghymru.

O ran **Heddlu'n Ymateb i Faterion Cymunedol**, mae Gogledd Cymru'n parhau yn 2il yn genedlaethol gyda 63.1% ar gyfer y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2018, gostyngiad o 1.1 y pen ar y 12 mis hyd at fis Medi 2018. Mae hyn yn ein codi i'r safle cyntaf yn ein Grŵp Mwyaf Tebyg a'r 1af yng Nghymru.

Mae gwelliant pendant o ran **Hyder** yn yr heddlu ac mae HGC ymhlith y lluoedd gorau yng Nghymru a Lloegr.

Sefydlodd Heddlu Gogledd Cymru Ganolbwynt Datrys Problemau ym mis Tachwedd 2018, yn cynnwys Arolygydd a 2 Gydlynydd Atal Troseddu, a gefnogir gan rwydwaith o 54 o ymgynghorwyr tactegol. Ers lansio'r Canolbwynt ar 30 Ionawr 2019, bu cynnydd cyson yn nifer ac ansawdd cynlluniau Plismona yn ôl Problemau (POPS). Ar hyn o bryd, mae 35 o gynlluniau wedi eu cyflwyno i fy nghefnogi i ddarparu blaenoriaeth Cymdogaethau Mwy Diogel.

Un enghraifft ardderchog o'r mentrau datrys problemau sy'n cael eu cyflawni yw'r Fenter Gwrthsefyll Trais (SAVI) yn y Rhyl sydd â phartneriaeth gref ac ymgysylltiad â'r gymuned. Bydd SAVI yn darparu ystod amrywiol o wasanaethau i gefnogi ac atal pobl ifanc rhag cymryd rhan mewn trosedd ac anhrefn a chynyddu argaeledd gweithgareddau cadarnhaol.

Dyma rai enghreifftiau o Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda'i bartneriaid dros y cyfnod adrodd i 'ddarparu cymdogaethau mwy diogel':

**Ymgyrch Labour –** dwyn offer yn ardal wledig Wrecsam. Arestiwyd pedwar person a ymddangosodd yn y llys ar 17/06/19.

**Ymgyrch Blue Oak** – Dwyn trelars yn Ardal Wledig Wrecsam**.** Cwblhawyd dau ddiwrnod rhagweithiol a daethpwyd o hyd i ddau drelar, mae'r troseddau wedi gostwng yn sylweddol.

**Ymgyrch Lawin –** troseddau dwyn o ffermydd yn ardal wledig Wrecsam, cefn gwlad Sir y Fflint a Swydd Gaer**.** Ymgyrch ar y cyd yn cael ei chynnal rhwng CID y Dwyrain a heddlu Swydd Gaer.

**ASB a Graffiti ym Mae Colwyn -** tuedd sy'n dod i'r amlwg ledled Bae Colwyn gyda phocedi o graffiti'n ymddangos ar draws y dref, gyda sawl "tag" yn cael eu defnyddio. Mae'r tîm plismona lleol a Chyngor Conwy wedi defnyddio dull Ymateb i Broblemau i geisio deall pam fod hyn wedi datblygu a phwy allai fod yn gyfrifol. O ganlyniad, maent wedi defnyddio gwasanaethau artist graffiti lleol sy'n cynnig persbectif arbenigol a lleol o ran pam y gallai hyn fod yn datblygu.

**Begera, Canol Tref y Rhyl** – mae gwaith partneriaeth parhaus gyda “Sir Ddinbych yn Gweithio” wedi amharu ar y rhai hynny sy’n begera ar y strydoedd. Er nad ydym yn dal i fod yn deall achosion begera yn llawn (gan ei fod yn amrywio’n helaeth), mae pecynnau ymyrraeth ac ymgysylltu pwrpasol wedi eu creu i fynd â’r unigolion hyn i ffwrdd o’r gweithgaredd hwn. Mae’r rhai hynny sy’n dewis peidio ag ymgysylltu yn cael eu hun yn destun gorfodi mwy traddodiadol gan ddefnyddio Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus.

**Ymgyrch Chowder –** ASB a Throseddau yn gysylltiedig â phoblogaeth ddigartref ym Mangor. Y prif ffocws yw cynnig gwasanaethau i unigolion digartref a diamddiffyn yn ardal Bangor a’r cyffiniau, gyda’r nod yn y pendraw o leihau trosedd ac anrhefn, a lleddfu pwysau ar lu o wasanaethau drwy waith partneriaeth wedi’i dargedu. Rhagwelir y bydd “Canolbwynt” un stop ar gyfer gwasanaethau cefnogi yn weithredol o fewn 12-18 mis.

**Ymgyrch Clouder** – Mae’r fenter hon yn adeiladu ar ein perthnasau gwaith agos gyda Phrifysgol Bangor a Choleg Menai. Bwriad y cynllun yw canfod gwirfoddolwyr (myfyrwyr) i gefnogi’r heddlu a’r gymuned leol. Mae cynllun cyfeillio eisoes ar waith lle mae myfyrwyr yn cefnogi cyd-fyfyrwyr ar nosweithiau prysur, gan sicrhau taith ddiogel iddynt gartref, gan felly atal trosedd, anhwylder a throseddau a allai fod yn fwy difrifol. Mae’r posibiliadau ar gyfer y cynllun hwn yn ddiddiwedd ac yn cynnig profiad gwerthfawr i’r cyfranogwyr y gellir ei drosglwyddo i’r yrfa o’u dewis yn y dyfodol.

**Materion Plismona Craidd:**

**Ar** Wythnos 114 (15 Gorffennaf 2019) bu cynnydd o 4.6% yn y troseddau a gofnodwyd yn y flwyddyn hyd yma (o 15,912 y llynedd i 16,647 eleni). Trais heb anaf sy'n parhau i gymell y cynnydd cyffredinol. Mae fodd bynnag gostyngiad o 13% mewn achosion o drais heb anaf.

Yr amser ymateb cyfartalog ar unwaith yw 12.3 munud, sy’n parhau i fod yn sefydlog. Mae hyn yn amrywio o 8.9 munud yn Nhref Wrecsam i 17.8 munud yn Ne Gwynedd.

Mae’r nifer a **Laddwyd neu a Anafwyd yn Ddifrifol** ar ein ffyrdd yng Ngogledd Cymru wedi gostwng o 17.5% yn ystod y flwyddyn hyd yma (i lawr o 57 i 47). Bu hefyd gostyngiad hirdymor mewn mân anafiadau, sy'n golygu mai HGC sydd â’r gyfradd isaf yn genedlaethol. Efallai bod aelodau’r panel yn cofio bod cynnydd mewn anafiadau difrifol yn 2018, ond mae hyn bellach wedi dychwelyd i lefelau cyfartalog.

**Troseddau â Chyllyll:**

At ei gilydd, roedd 268 o droseddau yn ymwneud â chyllell rhwng mis Mawrth 2018 a mis Mawrth 2019, roedd dau o’r troseddau hyn yn llofruddiaethau. Roedd 190 o ymasiadau gydag anaf a phum lladrad (a oedd yn cynnwys cyllell). Roedd cynnydd cyffredinol o 3% mewn troseddau’n cynnwys cyllell, sy’n gynnydd tebyg i’r flwyddyn flaenorol.

**Bodlonrwydd yn gyffredinol**

Mae’n bwysig nodi y bu gostyngiad sylweddol yn nifer yr arolygon bodlonrwydd defnyddwyr ar gyfer dioddefwyr troseddau cyffredinol ers mis Ebrill 2018. Yn y cyfnod Gorffennaf 2017 i fis Mehefin 2018,

cwblhawyd oddeutu 1700 o arolygon o'u cymharu ag oddeutu 500 yn yr un cyfnod rhwng 2018 a 2019. Mae'r gostyngiad yn y sampl yn golygu fod y lle ar gyfer gwall yn y canlyniadau yn ehangach yn y deuddeg mis diwethaf o arolygon. Mae hefyd yn golygu y gellir ond defnyddio'r canlyniadau i ddangos darlun ar draws y llu gan fod meintiau'r samplau ar gyfer adrannau unigol yn eithaf bychan. Y rheswm dros y gostyngiad hwn mewn arolygon bodlonrwydd oedd caniatáu'r llu i ariannu'r arolygon dioddefwyr cam-drin domestig gorfodol a ddechreuodd ar ddiwedd 2018.

Isod mae'r lefelau bodlonrwydd ar draws pob maes gwasanaeth ar gyfer y cyfnodau Gorffennaf 2017 – Mehefin 2018 a mis Gorffennaf 2018 – Mehefin 2019.

**Arolygon Bodlonrwydd Defnyddwyr (trosedd gyffredinol)**

| Ardal | 2017-18 | 2018-19 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Rhwyddineb Cysylltu | 91.0% | 88.9% | - 2.1% |
| Gweithredoedd Cychwynnol yr Heddlu | 73.2% | 69.4% | - 3.9% |
| Camau Dilynol | 72.4% | 65.2% | - 7.2% |
| Triniaeth | 90.1% | 87.7% | - 2.5% |
| Profiad Llawn | 79.3% | 74.6% | - 4.7% |

**Digwyddiadau yn Ymwneud â Chasineb**

| Ardal | 2017-18 | 2018-19 | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Rhwyddineb Cysylltu | 86.1% | 88.7% | + 2.7% |
| Gweithredoedd Cychwynnol yr Heddlu | 73.3% | 65.6% | - 7.7% |
| Camau Dilynol | 72.1% | 69.8% | - 2.3% |
| Triniaeth | 87.9% | 89.7% | + 1.8% |
| Profiad Llawn | 78.5% | 71.4% | - 7.1% |

* Mae maint y sampl ar gyfer Digwyddiadau yn Ymwneud â Chasineb yn fychan (tua 100 arolwg y flwyddyn).

Mae'r sylwadau a wnaed gan ddefnyddwyr anfodlon yn ymwneud â Dilyniant ar gyfer Troseddau Cyffredinol yn y deuddeg mis diwethaf wedi eu hadolygu hefyd:

Mae 71.1% yn adrodd cwynion ynghylch cyfathrebu – diffyg diweddariadau, dim cyswllt dilynol, gorfod mynd ar ôl gwybodaeth, ddim yn ymwybodol o'r canlyniad, gorfod delio â nifer o bobl.

Nododd 11.1% eu bod yn anfodlon gyda'r ymchwiliad ei hun – anfodlon gyda'r canlyniad, anfodlon gyda'r camau ymchwilio.

Dywedodd 7.7% eu bod yn anfodlon ynglŷn ag oedi – oedi cyn cael eu gweld, oedi cyn i'r achos gael ei neilltuo i swyddog, yr amser y cymerodd yr ymchwiliad.

Roedd 2.6% yn anfodlon gydag agwedd HGC – yn teimlo eu bod wedi eu methu, nid oeddent yn teimlo fod yr achos yn cael ei gymryd o ddifri.

Cyfeiriodd 2.6% at faterion ynghylch cyngor / gwybodaeth anghyson yn cael ei ddarparu gan staff HGC.

Rhoddodd 4.3% ymatebion a oedd yn amherthnasol i'w hymchwiliad eu hunain a’r dilyniant, ac yn anfodlon yn gyffredinol gyda HGC.

Bydd y Grŵp Tasg Safonau Ymchwilio a’r gwaith mae fy swyddfa yn ei wneud ynghylch cydymffurfiad gyda’r Cod Ymarfer Dioddefwyr yn ceisio dod i waelod y materion hyn, yn arbennig mewn perthynas â Dilyniant a ddarparwyd i ddioddefwyr.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy’n darparu crynodeb byr i’r Panel ynglŷn â’r prif bethau y mae fy Nirprwy a finnau wedi’u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi’r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

O 1 Mawrth 2019 tan 1 Awst 2019, cwrddais â'r unigolion / sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru), ac ymwelais â'r digwyddiadau a ganlyn:

*Mai:*

- Agor Gorsaf yr Heddlu Llai;
- Lansio Heddlu Bach HGC;
- Cyfarfod Grŵp Portffolio Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau (APCC) Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ;
- Ymweliad â Phrosiect Wisdom yng Nghaernarfon;
- Lansiad Cymru Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig y DU, a gynhaliwyd gan y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace, AS, Gweinidog Diogelwch a Throseddau Economaidd a Jane Hutt, AC, Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru;
- Digwyddiad cyflwyno sieciau blynyddol ‘Eich Cymuned, Eich Llais’;
- Cyfarfod Soroptimistiaid Dinbych i drafod caethwasiaeth fodern;
- Cyfarfod cyflwyno gyda’r Comisiynydd y Gymraeg newydd, Mr Aled Roberts;
- Cyfarfod gyda Phrifysgol Bangor ynghylch Checkpoint;
- Sesiwn bwrdd padlo yn Llyn Padarn, a drefnwyd gan Hafal fel rhan o’u gwaith ymyrraeth gynnar gyda phobl ifanc;
- Cyfarfod Bwrdd Plismona yng Nghaerdydd;
- Lansiad Ymgyrch Troseddau Cyllell Gogledd Cymru Crimestoppers;
- Cinio Uchel Siryf Clwyd ar gyfer Parkinsons UK;
- Dau gyfarfod o’r Grŵp Seneddol Trawsbleidiol ar Blismona a Diogelwch. Un ynghylch Plismona Pêl-droed a’r llall ynghylch Diwygio Polisi Cyffuriau;
- Cyfarfod Bwrdd APCC a Golwg Fanylach ar Bolisi;
- Cymhorthfa Stryd gyda’r Cyng Nicola Roberts a Dylan Rees yn Llangefni;
- Cyfarfod gydag Arweinydd Cyswllt Llu newydd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi

*Mehefin:*

- Cynhaliwyd Cymhorthfa Stryd gyda’r Cyng Gethin Williams yn Abermaw;

- Cyfarfod gyda'r Dirprwy Weinidog Jane Hutt AC a'r Cyng Hugh Jones ynghylch diogelwch cymunedol yng Nghaerdydd;
- Cyfarfod gyda Phrif Weithredwr BAWSO Mutale Merrill;
- Digwyddiad Mawr Lobïo'r Senedd Anyone's Child yn Llundain;
- Cymhorthfa Stryd gyda'r Cyng Siôn Wyn Jones yng Nghaernarfon;
- Cymhorthfa Stryd gyda'r Cyng Freya Bentham yn Harlech;
- Cyfarfod gyda Chymdeithas Achub ar Fynydd Gogledd Cymru ym Metws-y-coed;
- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr Cwmni Theatr Arad Goch ynghylch theatr mewn addysg.

*Gorffennaf:*

- Cyfarfod Cydbwyllgor CHTh a Phrif Weithredwyr Gogledd-orllewin Lloegr yn Warrington;
- Agor cynhadledd Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru yng Nghaerdydd;
- Rhoi cyflwyniad ynglŷn â fy ngwaith i Un Llais Cymru yn Llansannan;
- Cyfarfod Trosedd ac Anhrefn Sir Conwy gyda'r Arolygydd Jason Devonport;
- Eisteddfod Llangollen;
- Lansiad Prosiect Making the Cut Cam-drin Domestig Heddlu Gogledd Cymru yn y Rhyl;
- Lansiad Prosiect SAVI (Cynllun Sefyll yn Erbyn Trais) ym Mhrosiect Pobl Ifanc Gorllewin y Rhyl;
- Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod.
- Lansiad arddangosfa Troseddau Cyllell Dangerpoint;
- Digwyddiad Strategaeth Trais Difrifol y Swyddfa Gartref;
- Digwyddiad bwrdd crwn ynghylch Llinellau Sirol a drefnwyd gan y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol;
- Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru;
- Cyfarfod Cyffredinol APCC yn Llundain;
- Cyfarfod Bwrdd Gweithredol Strategol.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr cymunedol, partneriaid ac aelodau'r cyhoedd, rydw i a fy Nirprwy wedi cyflawni sawl gweithgaredd cyfryngau. Mae'r rhain yn cynnwys:

Gorsaf Heddlu "Werdd" Newydd

Arian a atafaelwyd gan droseddwyr yn helpu pobl ifanc i wneud sblash

Heddlu bach am gael effaith fawr

Poeni am gynnydd mewn blacmel rhywiol ymysg yr arddegau

Stopiwch gicio pêl-droed drwy'r adeg, medd pennaeth Heddlu

Hwb ariannol i ganolfan cam-drin rhywiol

Comisiwn Ieuenctid newydd am helpu i osod y ddeddf i lawr

Ffilm drawiadol i amddiffyn pobl ifanc bregus rhag y fasnach gyffuriau anfad

Pysgota am ddim yn helpu pobl ifanc Glannau Dyfrdwy i fwynhau'r gamp

Arian parod a atafaelwyd gan droseddwyr yn darparu man cyfarfod diogel i bobl ifanc LHDT

Horsewatch scheme to combat rustlers up and running thanks to crooks' cash

Arian a atafaelwyd gan droseddwyr yn rhoi hwb newydd i bentref

Criminals' cash pays for poignant pilgrimage by Anglesey youngsters

Grant yn helpu clwb bocsio i daro ergyd yn erbyn troseddu

Cynlluniau chwaraeon newydd yn mynd i'r afael â bygythiad gangiau cyffuriau

**Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd:**

O 1 Mai 2019 tan 1 Awst 2019, cwrddodd y Dirprwy Gomisiynydd â'r unigolion / sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru), ac ymwelodd â'r digwyddiadau a ganlyn:

- Agor Gorsaf yr Heddlu Llai;
- Ymweliad â Phrosiect Wisdom yn Nghaernarfon;
- Lansiad Cymru Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig y Du, a gynhaliwyd gan y Gwir Anrhydeddus Ben Wallace, AS, Gweinidog Diogelwch a Throseddau Economaidd a Jane Hutt, AC, Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip Llywodraeth Cymru;
- Grŵp Llywio Llinellau Sirol;
- Siaradwr gwadd yng Ngrŵp Canolog Gogledd-orllewin Lloegr Age Connects;
- Golwg fanwl ar Bolisi Twyll APCC;
- Cyfarfod Rhwydwaith Caethwasiaeth Fodern;
- Cyfarfod gyda'r Comisiynydd Plant Sally Holland;
- Cymhorthfa Stryd gyda'r Cyng Nicola Roberts a Dylan Rees yn Llangefni;
- Digwyddiad dathlu'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru
- Cyfarfod Grŵp Rhanbarthol IOM Gogledd Cymru;
- Cyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol;
- Siaradwr Gwadd yn seremoni raddio Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth Gogledd Cymru Chwarae Teg;
- Cynhadledd Ffydd a Phlismona yn Llundain;
- Lansiad Strategaeth Cynrychiolaeth Gweithlu;
- Digwyddiad Coffau Windrush ym Mae Colwyn;
- Cyfarfod Grŵp Merched mewn Cyfiawnder Cymru gyfan;
- Cynhadledd Yw'r Ddraig yn dal i Smygu;
- Cynhadledd Dull System Gyfan yr MOJ.

**Comisiynu**

Yn ystod y cyfnod hwn, hysbysebwyd manyleb Pathfinder Merched. Ehangwyd y gwasanaeth hwn i gwmpasu'r tair dalfa ar draws Gogledd Cymru (yn flaenorol roedd prosiect peilot yn nalfa Llanelwy yn unig). Dyfarnwyd y contract i Ganolfan Merched Gogledd Cymru a byddant yn cynnig cefnogaeth i ferched a atgyfeirir yn sgil gwasanaeth Checkpoint Cymru a fydd yn cael ei lansio ar 1 Hydref 2019.

Mae rhagor o waith wedi ei wneud rhwng HMPPS a fy swyddfa i ddatblygu manyleb newydd ar gyfer contract gwasanaethau integredig cyfiawnder troseddol. Galwyd y contract blaenorol yn Y Rhaglen Ymyriadau Cyffuriau (DIP). Fodd bynnag, ers cyflwyno'r DIP bu sawl newid a bydd y fanyleb newydd yn cwrdd yn fwy effeithiol ag anghenion presennol. Cyfeirir at y contract newydd fel y prosiect *Dechrau Newydd-New Start* a bydd y contract yn cael ei reoli gan fy swyddfa. Bydd gofyn i'r contractwr llwyddiannus weithio gyda'r cynllun 'Checkpoint Cymru' a fydd yn cael ei sefydlu cyn dechrau'r contract. Bydd y prosiect hwn yn ceisio ymgysylltu â throseddwyr camddefnyddio sylweddau ac yn eu cefnogi i leihau troseddau yn ymwneud â chyffuriau, gwella iechyd a gweithredu cymdeithasol, ymgysylltu â chymorth amlasiantaeth ac yn gwneud newidiadau cynaliadwy i ffordd o fyw. Y nod cyffredinol yw darparu cymorth integredig llyfn i droseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol sy'n cefnogi fy marn y dylid trin pobl ddiamddiffyn fel cleifion yn hytrach na fel troseddwyr.

Rydym ar hyn o bryd yn awyddus i wasanaethau sydd â diddordeb fynegi diddordeb a'r dyddiad cau ar gyfer cynigion yw 30 Medi 2019.

Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid wedi eu comisiynu unwaith eto ar draws y chwe awdurdod lleol.

Hysbysodd darparwr cyfredol Gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol Sir Ddinbych ni'n ddiweddar o'u bwriad i derfynu eu contract gyda ni ar 31 Awst 2019. Gofynnom felly i wasanaethau sydd â diddordeb fynegi diddordeb mewn darparu 2 Eiriolwyr Annibynnol Trais Domestig cymwys amser llawn i sicrhau trosglwyddiad esmwyth tan 31 Mawrth 2020. Y dyddiad cau i bartïon sydd â diddordeb i fynegi diddordeb yw 9 Awst. Bydd canlyniad y broses hon yn cael ei rannu gyda'r Panel yn y cyfarfod nesaf.

Unwaith eto, byddaf yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â'r trydydd sector eleni i lywio fy ymgynghoriad ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cynllun Heddlu a Throsedd. Bydd digwyddiad eleni'n cael ei gynnal ar 21 Tachwedd yng Nghanolfan Fusnes Conwy a bydd gwahoddiadau yn cael eu hanfon yn ystod yr wythnosau nesaf.

**Dioddefwyr**

Mae pob gwasanaeth wedi eu comisiynu ac yn cyflawni yn ôl yr amserlenni.

Cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ddiweddar y byddai PCCs yn goruchwylio proses fonitro newydd, yn mesur cydymffurfiad partneriaid cyfiawnder troseddol gyda hawliau'r Cod Dioddefwyr. Bydd monitro o'r fath yn cael ei wneud drwy'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB), sy'n cael ei Gadeirio gennyf. Mae'r dull hwn i fod i wella data a thryloywder o ran a yw dioddefwyr yn derbyn eu hawliau yn y Cod ac a yw asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cwrdd ag ymrwymiadau dan y Cod.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi llunio cyfres o gwestiynau maent yn disgwyl i LCJB ddarparu data yn eu herbyn. O ganlyniad, mae fy swyddfa ar hyn o bryd yn gweithio gyda'n partneriaid i gytuno ar broses dychwelyd data sefydlog, a fyddai'n fy ngalluogi i adrodd yn flynyddol i Grŵp Swyddogion y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol ar gydymffurfiad yn lleol.

Bydd cynrychiolydd o'm swyddfa'n bresennol mewn gweithdy a gynhelir gan y Weinyddiaeth ym mis Hydref a fydd yn edrych yn benodol ar y ffurflen ddata diwedd blwyddyn a Chydymffurfiad â'r Cod Dioddefwyr.

**Recriwtio**

Dan Ddeddf Diwygio’r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae dyletswydd ar bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu i sefydlu a chynnal Cynllun Annibynnol Ymweld â Dalfeydd.

Ar hyn ô bryd mae 22 ymwelydd dalfeydd yng Ngogledd Cymru, sy’n ymweld â 3 dalfa ddynodedig; y rhain yw’r Dwyrain (Llai), Canolog (Llanelwy), a’r Gorllewin (Caernarfon) Bydd ymweliadau ond yn cael eu cynnal yn yr Wyddgrug, Caergybi a Dolgellau pan fydd Dalfeydd yn cael eu defnyddio.

Rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019, fe wnaeth ymwelwyr dalfeydd 104 o ymweliadau heb rybudd â’r dalfeydd, gan siarad â 344 o unigolion a oedd wedi’u cadw yn y ddalfa ac arsylwyd ar 72 o faterion difrifol a nodwyd ar eu cyfnod cadw.

Gellir gweld adroddiad blynyddol ar gyfer 2018-19 yma.

Mae’r adborth mae swyddogion a fy swyddfa yn ei dderbyn o’r ymweliadau heb rybudd hyn yn hanfodol, mae ymwelwyr dalfeydd yn tawelu meddwl y cyhoedd fod pobl a gaiff eu dal yn nalfeydd yr heddlu yn ddiogel a’u hawliau’n cael eu cyflawni.

Mae’r Cynllun yng Ngogledd Cymru yn gweithio’n agos gyda Chynlluniau eraill yng Ngogledd-orllewin Lloegr, i annog rhwydweithio a rhannu arferion da, cynhelir cynhadledd ar gyfer pob Ymwelydd Dalfeydd o Ogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru ym Mharc Haydock ar 12 Hydref. Y siaradwyr yw:-

Stephen Hughes, Prif Weithredwr Gogledd Cymru, Jane Kennedy, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, Glannau Mersi, Miranda Bevan PhD a fydd yn sôn am ei hymchwil i effaith bod yn y ddalfa ar blant â phobl ddiamddiffyn sy’n cael eu cadw yno, Kirsty Simpson a Kim Ratcliffe a fydd yn siarad am Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl, Benjamin Rychwalski-Lindley a fydd yn siarad am ymwybyddiaeth trawsryweddol a Gamal Turawa ar Ddangos Tuedd Heb Wybod.

**Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru**

Sefydlwyd Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru ym mis Awst 2019. Cynhaliwyd eu cyfarfod cyntaf ar 16 Awst 2019.

Mae 25 o bobl ifanc o bob rhan o Ogledd Cymru wedi eu recriwtio i fod ar y Comisiwn Ieuenctid. Mae’r bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed. Maen nhw wedi cael eu recriwtio o bob cwr o Ogledd Cymru ac yn dod o amrywiaeth eang o gefndiroedd a grwpiau demogaffig gan gynnwys cefndiroedd gwledig a threfol, rhai gyda phrofiad o’r heddlu a’r system cyfiawnder troseddol, plant dan ofal, pobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, pobl ifanc anabl, siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf. Gwnaed ymdrech fawr iawn i sicrhau bod amrywiaeth o gefndiroedd a phrofiadau yn bresennol ymhlith y bobl ifanc sydd wedi eu cynnwys yn y Comisiwn Ieuenctid.

Yn eu cyfarfod ym mis Awst, trafodwyd yr hyn roeddent yn eu hystyried oedd yn flaenoriaethau mewn perthynas â throseddu a phlismona yng Ngogledd Cymru. Bydd y grŵp yn cyfarfod unwaith eto i sefydlu cwestiynau ar gyfer ymgynghoriad y byddant yn ei gynnal ar bobl ifanc eraill. Nod y prosiect yw cael barn 1,500 o bobl ifanc o bob cwr o Ogledd Cymru.

Bydd aelodau o'r Comisiwn Ieuenctid yn bresennol yng nghyfarfod Panel yr Heddlu a Throsedd ddydd Llun 9 Rhagfyr 2019 i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel yn uniongyrchol am y gwaith maen nhw wedi bod yn ei wneud.

**Cyllideb Gyfranogol a'r Gronfa Ymyrraeth Gynnar**

Rwyf wedi ymweld â nifer o'r prosiectau llwyddiannus y dyfarnwyd y cyllid iddynt.

Rydym bellach ar ail flwyddyn y Gronfa Ymyrraeth Gynnar ac mae pob prosiect yn cyflawni yn ôl ei broffil.

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am yr HMIC**

Ym mis Gorffennaf 2019, rhyddhaodd yr HMICFRS yr adroddiad arolygu "the poor relation: the police and CPS response to crimes against older people". Mae fy ymateb i'r adroddiad arolygu ynghlwm.

PDF
2019.08.29 Priti
Patel - Older People's

**Checkpoint**

Penodwyd Anna Baker yn ddiweddar fel Arolygydd fy rhaglen wrthdyniadol newydd Checkpoint Cymru. Bydd Anna a'r Arolygydd Iwan Jones yn rhoi cyflwyniad i'r Panel yn y cyfarfod ar y cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf cyn y dyddiad gweithredu ar 1 Hydref 2019.

**Gohebiaeth:**

Ffigurau gohebiaeth o 1 Mai 2019 hyd 1 Awst 2019:

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Gohebiaeth yn benodol i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd | *75* |
| Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth | 8 |
| Gohebiaeth gyffredinol - gan gynnwys papurau ar gyfer cyfarfodydd a gwybodaeth gyffredinol | 194 |
| Gwahoddiadau | 539 |
| Cyfeiriwyd at Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Cyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 45<br><br>12 |

**Rhestr Termau:**

**APCC**: Cymdeithas Genedlaethol Paneli yr Heddlu a Throsedd

**BASC**: Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain

**BAWSO:** Sefydliad gwirfoddol i Gymru Gyfan, sy'n darparu gwasanaethau arbenigol i ddioddefwyr a phobl BAME a effeithir neu sydd mewn perygl o Gam-drin Domestig a phob math o drais.

**UNED RASSO CPS** Uned Treisio a Throseddau Rhyw Difrifol Gwasanaeth Erlyn y Goron

**CSE/CCE**: Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant/ Chamfanteisio'n Droseddol ar Blant.

**DA**: Cam-drin domestig

**DVPN/DVPO**: Hysbysiad Diogelu Trais Domestig / Gorchymyn Diogelu Trais Domestig

**FGM**: Anffurfio Organau Rhyw Benywaidd

**HMICFR**S: Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi

**IDVA**: Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol

**IOM**: Rheoli Troseddwyr Integredig

**IOPCC**: Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

**ISVA**: Ymgynghorydd Trais Rhywiol Annibynnol

**KSI**: Lladdwyd neu Anafwyd yn Ddifrifol

**LCJB**: Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

**MARAC** Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth

**MOJ:** Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

**MSG**: Grŵp Mwyaf Tebyg (o Luoedd)

**NFA**: Dim Camau Pellach

**NPCC**: Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu

**NRM**: Mecanweithiau Cyfeirio Cenedlaethol

**OCGs**: Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol

**PACT**:  Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned

**POLIT:** Tîm Pedoffiliaid ac Ymchwilio Ar-lein

**SARC**: Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

**SEB**: Bwrdd Gweithredol Strategol

**VAWDASV**: Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol

**VCOP**: Cod Ymarfer Dioddefwyr

**YTD/LYTD**: Y Flwyddyn Hyd Yma / y llynedd hyd yma

# Adroddiad o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Diweddariad ar Gyllideb 2019/20 (ar 31 Gorffennaf 2019)**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 30 Medi 2019**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas y papur hwn yw darparu aelodau'r panel gyda:

- Chadarnhad fod y Datganiad Cyfrifon wedi'i gwblhau ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019;
- diweddariad ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru ar 31 Gorffennaf 2019 (mis 4).

## 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

## 3. Diweddariad ar gyfrifon ac archwiliad 2018/19

3.1 Ar ôl cwblhau'r archwiliad, mae'r alldro a'r sefyllfa o ran arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio yr un fath â adroddwyd i'r Panel Heddlu a Throsedd ar 17 Mehefin 2019.

3.2 Roedd un newid i'r cyfrifon wedi'u harchwilio o ganlyniad i feirniadaeth McCloud[1]. Roedd hynny'n golygu cynnydd o £75m yn yr atebolrwydd yn berthnasol i Gronfa Pensiynau Heddlu Gogledd Cymru. Fodd bynnag, ers i'r atebolrwydd fod dan warant y Swyddfa Gartref, tydi'r newid heb gael unrhyw effaith ar yr arian wrth gefn y gellir ei ddefnyddio neu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd neu'r Heddlu.

3.3 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl.

3.4 Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach ar Statement of Accounts a Auditor's Report.

## 4. Diweddariad ar Gyllideb 2019/20

4.1 Cymeradwywyd y gyllideb net o £154.264m ym Mhanel yr Heddlu a Throsedd ar 28 Ionawr 2019. Mae'n cynnwys £0.826m i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a £1.624m i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol. Mae rhagor o wybodaeth i'w gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd website.

4.2 Mae'r gyllideb yn cynnwys twf o £1.939m gan greu 40 o swyddi newydd. Cynnydd hyd yma yn cynnwys:

- Recriwtio swyddogion wedi cynyddu o 54 yn y flwyddyn ariannol hon i 85, gyda 18 o swyddogion prawf ychwanegol wedi'u penodi yn Ebrill 2019 (a fydd yn

annibynnol yn Ionawr 2020). Mae'n cynnwys 10 o recriwtiaid *Ditectif Nawr* a thri swyddog wedi trosglwyddo;

- Mae recriwtio ychwanegol a hyfforddiant i staff er mwyn cynyddu'r nifer o swyddogion sy'n cael eu recriwtio;
- O 10 swydd ychwanegol mae wyth wedi'u llenwi a un yn y broses o'i llenwi. Mae'r swydd arall yn gydnaws â thwf swyddog;
- Wedi derbyn gynnau taser newydd, a bydd 100 o swyddogion ychwanegol yn cael eu hyfforddi i'w defnyddio erbyn Mawrth 2020.

4.2 Wedi gwneud dau gyhoeddiad ers gosod y gyllideb ddiwethaf sydd wedi cael effaith ar wariant ar hyn o bryd ac yn y dyfodol:

- Dyfarniad cyflog i swyddog yn 2019/20 fydd 2.5%. Er bod y dyfarniad cyflog staff angen ei benderfynu arno'n derfynol mae'n debyg o fod yr un fath. Mae'r gost ychwanegol o £0.336m wedi'i gynnwys yn yr amcanestyniad.
- Ym mis Gorffennaf fe gyhoeddodd y Prif Weinidog gynlluniau i recriwtio 20,000 o swyddogion yr heddlu ychwanegol ledled Cymru a Lloegr. Nododd y cyhoeddiad gwreiddiol y byddai'n cael ei ariannu o fewn adnoddau presennol; fodd bynnag, ers hynny mynegwyd y bydd cyllid ar gael wrth symud ymlaen. Er mwyn dechrau gwneud cynnydd gyda hyn, mae 18 o swyddogion ychwanegol yn cael eu recriwtio yn Hydref 2019, a POD (AD) a hyfforddiant ar gael ar gost o £0.335m yn y flwyddyn ariannol bresennol.

4.3 Trosglwyddiadau eraill a gyflawnwyd yn cynnwys:

- +£0.225m ar gyfer 10 Casglwyr Tystiolaeth
- +£0.342m ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio
- -£0.127m ar gyfer Cefnogaeth Awyr (NPAS)

Bydd y Casglwyr Tystiolaeth yn cael eu recriwtio er mwyn symud ymlaen gydag archwiliadau yn ystod y cyfnod y byddwn yn hyfforddi ditectifs ychwanegol, yn fewnol a thrwy'r rhaglen *Ditectif Nawr*.

Mae arolwg cyflwr o ystâd y Comisiynydd yn dangos fod gwaith hyd at oddeutu £1.968m angen ei wneud dros y 10 mlynedd nesaf lle bydd £0.343m o flaenoriaeth uchel sydd angen ei wneud yn y flwyddyn ariannol hon.

Cadarnhawyd ffi NPAS ar gyfer 2019/20 yn Chwefror 2019, a chafodd y gyllideb ei lleihau yn unol â hynny. Fodd bynnag, bydd angen ei ail-asesu ar gyfer 2020/21, gan fod posibilrwydd y bydd y mecanwaith codi ffi yn newid.

4.4 Mae problemau parhaus gyda chytundebau fforensig a fydd o bosib yn golygu cynnydd mewn costau o 30% (o'i gymharu â'r amcangyfrif blaenorol o 25%). Mae'r gyllideb yn cael ei reoli'n agos gyda thanwariant llynedd; fodd bynnag gadawyd yr arian ar ôl yn y gyllideb i ariannu'r cynnydd hwn a ragwelwyd; mae'r amcanestyniad presennol o fewn y gyllideb.

4.5 Ar yr amser y lluniwyd yr adroddiad hwn roedd y costau cyfalaf, arian wrth gefn a chronfa diogelwch cymunedol wedi'u hamcanestyn i fod o fewn y gyllideb.

4.6 Mae crynodeb o’r cyllidebau a’r amcanestyniadau yn y tabl isod. Bydd unrhyw danwariant yn cael ei drosglwyddo i’r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; a’r cynnig yw defnyddio’r arian i recriwtio swyddogion ychwanegol yn Hydref 2019.

| | Cyllideb Gwreiddiol £’000 | Cyllideb 31 Gorffennaf 2019 £’000 | Gwirioneddol 31 Gorffennaf 2019 £’000 | Amcanestyniad tan ddiwedd y flwyddyn £’000 | Amrywiaeth i'r Amcanestyniad £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 134,701 | 134,263 | 43,971 | 133,999 | (264) |
| Safle | 7,863 | 8,261 | 2,474 | 8,216 | (45) |
| Trafnidiaeth | 3,826 | 3,589 | 1,230 | 3,589 | - |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 21,706 | 21,725 | 6,102 | 21,734 | 9 |
| Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf | 2,607 | 2,607 | - | 2,607 | - |
| Cronfeydd wrth gefn | 860 | 860 | - | 860 | - |
| Cronfa Diogelwch Cymunedol | 1,567 | 1,567 | 54 | 1,567 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **173,130** | **172,872** | **53,831** | **172,572** | **(300)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(18,910)** | **(19,449)** | **(4,765)** | **(19,653)** | **(204)** |
| | | | | | |
| **Symudiad mewn cronfeydd wrth gefn** | **44** | **841** | **797** | **841** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Net** | **154,264** | **154,264** | **49,863** | **153,760** | **(504)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (73,234) | (73,234) | (19,606) | (73,234) | - |
| Praesept | (81,030) | (81,030) | (14,996) | (84,030) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(154,264)** | **(154,264)** | **(34,602)** | **(154,264)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant Net** | | | | | **(504)** |

4.7 Wedi'i gynnwys uchod mae incwm a gwariant yn berthnasol i grant Gwasanaethau i Ddioddefwyr gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £804,262 wedi cael ei ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £783,352 wedi cael ei glustnodi i gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr, gyda’r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Mae gwasanaethau wedi’u comisiynu yn cynnwys: Ganolfan Cymorth i Ddioddefwyr, Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol.

4.8 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi’i gynnwys yn yr uchod hefyd. Mae’r gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn yn £835,752 gan gynnwys cyfraniad o £30,000 i Heddlu a Chymunedau Gyda'i Gilydd (PACT). Ar 31 Gorffennaf roedd gwariant yn £285,948 a’r alldro rhagamcanol yn £835,097 a oedd yn unol â’r gyllideb ond yn ddarostyngedig i newid.

4.9 Y gyllideb diwygiedig ar gyfer comisiynu gwasanaethau oedd £56,631. Ar 31 Gorffennaf roedd y gwariant yn £22,060 gyda amcanestyniad net o £56,631.

**Cyfalaf**

5.1 Y rhaglen gyfalaf ddrafft wreiddiol ar gyfer 2019/20 oedd £6.667m. Gan gymryd llithriant a dileu ag ychwanegiadau bach i ystyriaeth bydd hynny'n cynyddu i £8.775m.

| **Cynllun** | **Gwariant b/f £'000** | **Cyllideb 2019/20 (newid proffil) £'000** | **Gwariant 2019/20 hyd at 31.07.19 £'000** | **Cyllideb – yn y dyfodol £'000** | **Cyfanswm Cyllideb £'000** | **Gwariant hyd at 31.07.19 £'000** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster adeilad newydd Wrecsam yn Llai | 21,119 | 181 | 44 | - | 21,300 | 21,163 |
| Cyfleuster yn nhref Wrecsam | 1,766 | 334 | 289 | - | 2,100 | 2,055 |
| Adeilad newydd Llandudno | 2,742 | 63 | - | - | 2,805 | 2,742 |
| Ystadau eraill | 3,943 | 1,699 | 19 | 16,284 | 21,926 | 3,962 |
| Cerbydau ac offer | 7,855 | 2,342 | 109 | 7,555 | 17,752 | 7,964 |
| TG a Chyfathrebu | 7,402 | 4,156 | 458 | 5,922 | 17,480 | 7,860 |
| **Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf** | **44,827** | **8,775** | **919** | **29,761** | **83,363** | **45,746** |

## 6 Goblygiadau

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau amrywiaeth ar wahân |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd am sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf ar ddiwedd Gorffennaf 2019.<br><br>Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu cynllun yr heddlu a throsedd a chyflawni ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Nid oes goblygiadau ar wahân i'r heddlu a throsedd. |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 30 Medi 2019 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis - Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br><br>Dawn Hughes – Uwch Swyddog Cefnogi'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **TESTUN:** | Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd Medi 2018 – Medi 2019 |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw darparu crynodeb o'r cwynion sydd wedi eu derbyn yn ymwneud â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Mr. Arfon Jones a'r Dirprwy Gomisiynydd (Ann Griffith) ers y cyfnod adrodd diwethaf.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 7 cwyn cofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac 1 yn erbyn y Dirprwy Gomisiynydd yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

2.2 O'r 8 cwyn a gafwyd, mae pob cwyn wedi'i ddatrys a rhoddwyd gwybod am y canlyniadau yn flaenorol i'r Panel Heddlu a Throsedd.

2.3 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 2 gŵyn ers y cyfnod adrodd diwethaf, serch hynny, barn y Swyddog Arweiniol yw nad ydynt yn gofnodadwy a'u bod yn camddefnyddio'r gweithdrefnau cwynion a nodir yn y Rheoliadau.

2.4 Er bod gan Banel yr Heddlu a Throsedd y cylch gwaith i ddelio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn unig, mae Panel yr Heddlu a Throsedd wedi derbyn 10 cwyn ynghylch Heddlu Gogledd Cymru yn y cyfnod adrodd hwn (Medi 2018 – Medi 2019). Mae'r achwynwyr wedi cael gwybod am y weithdrefn gywir i'w dilyn mewn cysylltiad â'u cwynion.

## 3. ARGYMHELLIAD(ION)

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 Yn dilyn ymgynghoriad gydag Aelodau'r Panel, adolygodd y Panel Heddlu a Throsedd ei Drefn Gwyno ar 12 Ebrill 2018 a dirprwyo cyfrifoldebau statudol y Panel ynglŷn ag ymdrin â rhai cwynion a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd i Is-bwyllgor Cwynion fel y caniateir gan y ddeddfwriaeth; mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Cwynion yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Etholedig y Panel Heddlu a Throsedd.

4.5 Er bod y Panel wedi ei wahardd yn benodol rhag ymchwilio i'r cwynion yn rhinwedd y darpariaethau statudol, caniateir i'r Panel annog, hwyluso a chynorthwyo i ddatrys cwynion yn anffurfiol. Fel rhan o'r broses hon, gofynnodd y Swyddog Arweiniol am ragor o wybodaeth ac eglurhad gan y Comisiynydd a'i Swyddfa ynghylch y cwynion a dderbyniwyd.

4.7 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddelio â chwynion ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae'r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cwynion a ddaeth i law yn ystod y cyfnod adrodd. Am nad oedd y cwynion a ddaeth i law yn gofnodadwy yna nid oes angen rhagor o ymgynghori gyda'r Is-bwyllgor Cwynion.

## 6. ADNODDAU

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer costau gweinyddol, mae’r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn droseddol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a’r Dirprwy Gomisiynydd yn cymryd swm anghymesur o amser swyddog.

## 7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen crynhoi bob cwyn mewn adroddiad (fel y gellir rhoi gwybod amdanynt yn gyhoeddus) at ddibenion monitro.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o nifer y cwynion a ddaw i law yn rheolaidd, fel sy’n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL 2019/20

| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Dyddiad | Testun | Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost) |
|---|---|---|
| **30 Medi 2019** | **Crynodeb o'r cwynion sydd wedi dod i law** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| **30 Medi 2019**<br><br>**9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gyllideb 2019/20** | Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid - Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **30 Medi 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen Checkpoint** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Gronfa Ymyrraeth Gynnar** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf gan y Tîm Trais yn erbyn Merched, Cam-drin domestig a Thrais Rhywiol** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Rhaglen Gwella Gweithredol** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **9 Rhagfyr 2019** | **Adroddiad Blynyddol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| **27 Ionawr 2020** | **Praesept Arfaethedig ar gyfer 2020/21** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **27 Ionawr 2020** | **Diwygiadau i'r Panel Heddlu a Throsedd** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Strategaeth Ystadau i Heddlu Gogledd Cymru** | Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Cyflwyniad gan Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint ar y Dull Rheoli Achos Uwch** | Janes Warr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint |